



Gwasanaeth Democraidd
Democracy Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

10.00 a.m. DYDD MAWRTH, 10 MEDI, 2013

10.00 a.m. TUESDAY, 10 SEPTEMBER, 2013

Lleoliad / Location

SIAMBR DAFYDD ORWIG

SWYDDFEYDD Y CYNGOR

CAERNARFON

Pwynt Cyswllt / Contact Point

EIRIAN ROBERTS

01286 679018

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd: 2.09.13

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE**

AELODAETH / MEMBERSHIP (15)

Plaid Cymru (7)

Y Cynghorwyr / Councillors

Selwyn Griffiths	Charles Wyn Jones
Michael Sol Owen	Linda Ann Wyn Jones
Dilwyn Morgan	Gareth Thomas
Mandy Williams-Davies	

Annibynnol / Independent (4)

Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day	Tom Ellis
Anne Lloyd-Jones	Jean Forsyth

Llais Gwynedd (3)

Endaf Cooke	Anwen Davies
Jason Humphreys	

Llafur / Labour (1)

Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones

Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council
Y Cynghorwyr / Councillor Huw Edwards a / and Dewi Owen

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Mehefin, 2013 fel rhai cywir (copi ynghlwm).

5. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm).

6. GWE DDARLLEDU A MYNYCHU CYFARFODYDD O BELL

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm).

7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm).

8. GWYBODAETH I AELODAU

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm).

9. HYFFORDDIANT AELODAU

Ystyried adroddiad llafar y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, 04.06.13

Yn bresennol: Y Cynghorydd Lesley Day (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Thomas G. Ellis, Jean Forsyth, Evan Selwyn Griffiths, Charles W. Jones, Linda Ann Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Gareth Thomas, Mandy Williams-Davies.

Swyddogion: Geraint George, (Pennaeth Strategol a Gwella), Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), ac Ioan Hughes (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Annwen Davies, Ioan Thomas, (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer)

1. CADEIRYDD

Penderfynwyd: Cadarnhau penderfyniad y Cyngor ar 2 Mai 2013 i ethol y Cynghorydd Lesley Day yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14/.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2013/14.

3. CROESO

Estynnwyd croeso i'r Cynghorydd Jean Forsyth a oedd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor hwn am y tro cyntaf.

4. LLONGYFARCHIADAU

Cadarnhawyd bod Debbie Anne Williams Jones wedi ei phenodi'n Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd dros dro. Llongyfarchwyd y swyddog a dymunwyd yn dda i Vera Jones a fydd yn absennol dros gyfnod mamolaeth.

5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2013, fel rhai cywir.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

a) Mewn ymateb i ymholiad, esboniwyd fod y term 'information portal' yn cyfeirio at y gwaith a wnaed tuag at gael lle ar y we ar gyfer cadw gwybodaeth i'r aelodau etholedig hefo'i gilydd.

Ychwanegwyd mai dyma'r hyn a olygwyd gyda 'phorth gwybodaeth', ac er nad yw'r dechnoleg gyfredol yn cyd-fynd ag anghenion y Cyngor, nodwyd bod gwaith ymchwil pellach yn cael ei wneud tuag at gyrraedd yr uchelgais yma. Nodwyd bod datblygiadau'r 'bwletin aelodau' yn cyfarch hyn dros dro.

Ymhellach, nodwyd bod y term 'exchange' yn ymdrin yn bennaf ag uwchraddio'r system e-bost.

b) Nododd aelod nad oedd wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r rhan helaethaf o'r 13 sesiwn o hyfforddiant mewn perthynas â gwybodaeth electroneg i aelodau. Ychwanegodd ei bod yn ymwybodol fod un wedi ei gynnal ar 24 Ebrill ond nad oedd hwn yn addas ar ei chyfer gan nad oedd yn cael ei gynnal yn ddwyieithog.

Mewn ymateb, nodwyd bod y nifer sesiynau'n cynnwys sesiynau cyflwyno'r i-pad am y tro cyntaf. Yn ddiweddarach 'roedd sesiynau'n cael eu trefnu, yn ôl y galw, i ymdrin â materion penodol. Gwnaed cais pellach i gynnal sesiwn ychwanegol yn ne'r Sir yn ogystal â sesiwn hyfforddiant yn Saesneg a bwriedir trefnu dyddiadau ar eu cyfer yn y dyfodol agos.

6 GWE DDARLLEDU A MYNYCHU CYFARFODYDD O BELL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd yn amlinellu gwybodaeth ddiweddaraf ynghylch gofynion gwe ddarlledu, mynychu cyfarfodydd o bell a'r datblygiadau ynglŷn â'r grant i gynghorau Cymuned.

Ymhelaethodd ar y gwaith a wnaed hyd yma, gan nodi mai'r risg oedd bod Llywodraeth Cymru'n darparu grant ar gyfer cychwyn cynllun gwe ddarlledu a mynychu cyfarfodydd o bell, ond byddai'n ofynnol i'r Cyngor ddarganfod unrhyw gostau ar gyfer parhau gyda'r cynllun. Nodwyd bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar hyn o bryd i'r isafswm a ellid ei wneud heb gost refeniw.

Cyfanswm y grant oedd £72,000, ac o dderbyn yr arian byddai'r Cyngor yn ymrwymo i:-

- Ddarlledu yr oll/neu rai o gyfarfodydd y Cyngor;
- Darparu peth o'r cyllid, sef cyfanswm o £32,000, i gynghorau cymuned i'w cefnogi i ddarparu eu gwefannau eu hunain;
- Trefnu i aelodau ymuno â chyfarfodydd o bell.

Mewn ymateb i sylwadau a wnaed gan yr aelodau amlygwyd y prif bwyntiau canlynol gan swyddogion:-

- Na fu'r camerâu a fu yn siambr y Cyngor, cyn ei hadnewyddu, yn gweithio ers nifer o flynyddoedd;
- Fod y mater o ddyrannu grant i'r cynghorau cymuned gwbl ar wahân i'r gwaith o ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor;
- Mai 'hyd at' £500 o grant fyddai'n cael ei ryddhau i gynghorau cymuned unigol;
- Bod angen ystyried meini prawf ac edrych i mewn i sawl peth o safbwynt cynghorau cymuned sydd eisoes wedi wynebu'r costau wrth gwblhau neu ddechrau darparu gwefannau;
- Na fyddai'n rhesymol i Gyngor Gwynedd dderbyn llwyth gwaith ychwanegol o ran cadw gwefannau'r cynghorau cymuned yn gyfredol;
- Bod cadw gwefan pob cyngor cymuned yn gyfredol yn un o'r amodau o ran derbyn y grant;
- Na fyddai gwe-ddarlledu'n galw am greu swydd ychwanegol.

Mynegwyd pryder gan aelod oedd o'r farn mai prin fyddai'r manteision o weithredu yn unol â'r amodau er mwyn derbyn y grant, ac y byddai'n rhaid i gynghorau cymuned roi pwysau pellach ar y trethdalwyr er mwyn cwblhau'r gwaith angenrheidiol.

Mewn ymateb, esboniwyd mai bwriad Llywodraeth Cymru oedd hybu'r gwaith o roi gwybodaeth i drigolion ynglŷn â'r hyn mae cynghorau cymuned yn ei wneud.

Penderfynwyd: (a) Cymeradwyo i:

- (i) **symud ymlaen gyda darpariaeth gwe-ddarlledu o Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda ac, yn amodol ar faint y costau, i wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw ofynion sefydlu a chynnal y tu hwnt i'r arian grant allan o'r gyllideb Costau Democratiaeth.**
- (ii) **Beidio â gwneud darpariaeth cyfieithu ar gyfer gwe-ddarlledu y tu hwnt i drefniadau cyfieithu ar y pryd presennol y Cyngor yn yr ystafelloedd cyfarfod eu hunain**
- (iii) **Symud ymlaen gyda darpariaeth ymuno â chyfarfodydd o bell yn amodol ar gymalau 7(a) a 7 (b) yn yr adroddiad**
- (iv) **Barhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygu gwefannau i Gynghorau Cymuned.**

Yn dilyn y drafodaeth, adroddwyd fod y swyddogion newydd dderbyn dogfen ymgynghorol, ynglŷn â mynychu cyfarfodydd cyngor o bell.

Esboniwyd y byddai'r aelodau'n derbyn copi o'r canllawiau drafft ac awgrymwyd y gallent gyflwyno sylwadau, drwy'r Cadeirydd. Yna byddai'n bosib eu trosglwyddo i'r Aelod Cabinet, Gofal Cwsmer, fyddai'n ymateb, ar ran y Cyngor i'r canllawiau drafft.

Yn y cyfamser, gellid cymryd y camau cychwynol yn unol â'r penderfyniadau uchod.

Pwysleisiwyd bod risgiau'n bodoli a bod rhaid asesu'r canllawiau fel y gellir ymdopi â'r drefn yn weddol ddiogel.

Nodwyd y gallai'r cymhlethdodau fod yn gysylltiedig â diffygion technoleg allai ddigwydd ar unrhyw adeg; cworwm, presenoldeb cyhoedd ac eitemau eithriedig, y galw am nifer o gyfieithwyr a maint 'stafelloedd.

PENDERFYNWYD y dylai'r aelodau astudio'r canllawiau drafft a chyflwyno sylwadau i'r Cadeirydd fel y gellir eu trosglwyddo i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer.

6. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GAN AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd a'r Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd yn amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â datblygiadau gydag adroddiadau aelodau ar gyfer 2012/13.

Nodwyd bod 10 aelod wedi datgan diddordeb mewn darparu adroddiad ac mai 2 adroddiad a dderbyniwyd hyd yma. Galwyd ar i'r aelodau leisio barn ynglŷn â'r mater a thynnu sylw at unrhyw broblemau a ddaeth i'r amlwg a sut y gellir sicrhau gwelliant yn y dyfodol.

Nododd aelod na fu hysbysebu effeithiol ynglŷn â'r adroddiadau ac yn sgil hyn bod yr amserlen yn hynod gaeth erbyn hyn.

Yn ogystal, credai bod canllawiau caeth wedi eu gosod, a bod ffiniau pendant ynglŷn â'r hyn ellir ei gynnwys yn yr adroddiad wedi gwneud i rai feddwl nad oedd gwerth mewn darparu adroddiad.

Mewn ymateb, nodwyd mai Llywodraeth Cymru a osododd y canllawiau ac mai'r bwriad oedd creu cyfle pellach ar gyfer cyfathrebu hefo'r etholwyr. Ychwanegwyd bod y canllawiau wedi eu haddasu, ac yn ôl y rhai diwygiedig, gellir cyflwyno adroddiadau ar unrhyw adeg, ond fod y Cyngor yn glynnu at ddiwedd Mehefin ar gyfer peilor 2012/13 gan y byddai amseriad yr adroddiadau yn colli eu gwerth fel arall.

Bwriad y Cyngor oedd glynu at ddiwedd Mai fel dyddiad terfynol oherwydd mai cynllun peilot oedd hwn.

Er yn derbyn bod sefyllfa pob aelod yn wahanol, nododd aelod arall fod y canllawiau'n hynod heriol a bod yr angen i gyfyngu'r adroddiad i 2 dudalen yn tanlinellu hyn.

Gwrthwynebwyd y syniad o ddarparu adroddiad gan aelod oedd o'r farn na ddylai cynghorwyr orfod ysgrifennu ynglŷn â'r gwaith maent yn wneud o fewn eu cymuned.

Esboniodd swyddogion nad oes rheidrwydd ar i'r aelodau ddarparu adroddiad, ac y bydd yn fanteisiol pan ellir gweld adroddiadau gaiff eu cyflwyno. Cadarnhawyd y caiff yr adroddiadau a dderbynnir eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Penderfynwyd: a) Derbyn yr adroddiad a bod yr adroddiadau a gyflwynir gan aelodau'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor,
b) Bod esboniad yn cael ei roi ar wefan y Cyngor mai cynllun peilot ydy hwn.

7. MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 – HYFFORDDIANT AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd a'r Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd yn amlinellu gofynion y mesur uchod er mwyn penderfynu'r ffordd ymlaen.

Nodwyd mai'r bwriad oedd ystyried y ffordd orau o ddarparu ar gyfer anghenion yr holl aelodau, ac eithrio aelodau'r Cabinet, i'w galluogi i dderbyn adolygiad o'u hanghenion hyfforddiant a datblygu, pe baent yn dymuno hynny.

Mewn ymateb, gwnaed y prif sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Bod Fforymau Ardal yn creu'r cyfle gorau i'r holl aelodau dderbyn gwybodaeth ac i leisio barn;
- Bod angen ystyried y sgiliau sydd ei angen fel cynghorwyr yn ogystal â'r sgiliau fyddent yn dymuno ei gael;

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd bod yr ymateb i amrywiol gyrsiau yn amrywio.

Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd ysgrifennu at bob aelod etholedig (namyn Aelodau'r Cabinet) a chyflwyno'n gryno yn y Fforymau Ardal cyntaf gan esbonio gofynion Mesur Llywodraeth Leol yng nghyd-destun Cynlluniau Datblygu Personol, gan ofyn iddynt ddatgan diddordeb mewn derbyn adolygiad blynyddol neu beidio

(b) Addasu'r egwyddorion a'r canllawiau a ddatblygwyd ar gyfer blaenoriaethu caniatáu i Aelodau fynychu seminarau allanol a.y.b. a'u gwneud yn berthnasol ar gyfer cyrsiau hyfforddiant hefyd a'u mabwysiadu fel rhan o'r uchod.

8. SIARTER HYFFORDDIANT AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd a'r Pennaeth Gwasanaethau Democritaidd yn cyflwyno gwybodaeth am y Siarter Datblygu Aelodau er mwyn penderfynu'r ffordd ymlaen.

'Roedd aelodau a swyddogion o'r farn fod y Cyngor eisoes yn cwrdd â nifer o ofynion y Siarter, a nodwyd bod y syniad i'w groesawu fel dull o gael statws i hyfforddiant yr aelodau etholedig.

Yn ogystal, nodwyd bod lle i ddatblygu, a bod y Siarter yn creu cyfle ar gyfer hynny.

Penderfynwyd: Cymeradwyo i ddatgan diddordeb mewn ymgeisio am y Freinlen (Siarter) yn ystod 2013/14 a chyfleu'r argymhelliad hwn i'r Cyngor llawn nesaf ar 19 Medi 2013.

9. BWLETIN AELODAU ETHOLEDIG

Adroddodd y Pennaeth Gofal Cwsmer fod y 'Bwletin Aelodau' wedi ei lansio ers rhai wythnosau a galwodd am adborth cychwynnol gan yr aelodau.

Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:-

- Bod y bwletin yn fuddiol i aelodau ond bod angen cadw'r wybodaeth arno yn gryno;
- Na ddylai unrhyw ddarn o wybodaeth fod ar y 'bwletin' am gyfnod rhy hir;
- Gallai fod yn fuddiol i'r aelodau derbyn hyfforddiant addas;
- Bod y bwletin yn dalfyriad o'r hyn sy'n digwydd, a bod modd cael gwybodaeth bellach ar wefan benodol;
- Bod yr Adran Briffyrdd i'w gweld yn gwneud defnydd llawn o'r bwletin ac efallai bod angen annog adrannau eraill i wneud yr un modd.

Cytunwyd bod angen llenwi bylchau cyn y gellir cael system gwbl effeithiol a nodwyd bod gan yr aelodau ran amlwg yn y gwaith o sicrhau datblygiad cyson.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.25am

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	10 Medi 2013
PWNC	Cyfryngau Cymdeithasol
PWRPAS	Cyflwyno canllawiau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr
AWDUR	Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae chwyldro'n digwydd yn y ffordd rydym yn cyfathrebu. Rydym nawr yn gweld y newid mwyaf erioed yn y modd y mae gwybodaeth yn cael ei greu a'i feddiannu, yn ogystal â chyflymder gallu rhannu gwybodaeth. Arwain hyn at newid yn y modd yr ydym yn byw, yn gweithio, ac o bosib yn y modd yr ydym yn siarad ac yn meddwl.

1.2 Defnyddir y term hollgynhwysol cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio at amrediad o ddulliau aml-gyfrwng ar-lein sy'n cael eu defnyddio i greu cynnwys a chyfathrebu dwyffordd. Mae modd eu cyrchu drwy ffôn smart, cyfrifiadur, gliniadur, tabled, neu deledu smart.

2. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL: CANLLAW I GYNGHORWYR

2.1 Ar 16 Awst 2013, cyhoeddodd Cymdeithasol Llywodraeth Leol Cymru ddogfen Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr ar eu gwefan. Gellir gweld copi o'r ddogfen yn Atodiad 1.

2.2 Bwriad y canllaw hwn yw rhoi arweiniad i gynghorwyr sydd yn awyddus i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel dull o rannu gwybodaeth, agor trafodaethau newydd â phobl yn eu cymuned a thu hwnt, ac ennyn diddordeb eu hetholaeth mewn sgwrs dwy ffordd gynhyrchiol. Mae'r canllaw yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfryngau cymdeithasol *Facebook* a *Twitter*.

2.3.1 Yn y canllaw, rhestrir nifer o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr, megis bod:

- nifer cynyddol o bobl yn defnyddio *Twitter* a *Facebook* fel y dull cyfathrebu sydd orau ganddynt, gan arwain at botensial i sefydlu cyfathrebu dwyffordd â phob un ohonynt;
- yn ddull defnyddiol o ddysgu beth mae pobl yn siarad amdano'n lleol, eu pryderon a'u diddordebau;
- yn ffordd dda o sicrhau bod etholwyr yn fwy ymwybodol o'r gwaith a wneir gan gynghorwyr;
- yn gyfrwng i gael sgwrs gydag amrediad o bobl na fyddai modd cwrdd â hwy'n gorfforol ac nad ydyn nhw'n draddodiadol yn mynd i gwrdd â'u cynrychiolwyr lleol;
- yn ddull o gyfathrebu ar fyrder, gan allu cael adorth ar unwaith am syniadau a maniffesto er mwyn gallu addasu'r cynigion yn unol â'r farn leol.

3. RHAI YSTYRIAETHAU

3.1 Wrth ystyried cynnwys y ddogfen *Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr* (CLILC), dylid nodi fod ynddi faterion sy'n berthnasol i faes gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd e.e.

;

- y defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn pwyllograu, a'r hyn ddywed y Cyfansoddiad;
- y Gymraeg, a'r arweiniad a roddir gan Gynllun Iaith y Cyngor;
- hyfforddiant o safbwynt hwyluso cynghorwyr i
 - gychwyn defnyddio cyfryngau cymdeithasol
 - i wneud defnydd helaethach o gyfryngau cymdeithasol;
- y defnydd llwyddiannus a wneir eisoes o gyfryngau cymdeithasol gan rai aelodau etholedig yng Ngwynedd fel arfer dda;

a materion sy'n berthnasol i faes gwaith y Pwyllgor Safonau, e.e.

- y côd ymddygiad a goblygiadau cyfreithiol o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol
- camau a ddilynir mewn achosion o gamddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Awgrymiadau yn unig yw'r rhain, a gall ystyriaethau pellach ddod i'r amlwg yn sgil trafodaethau'r pwyllgor.

3.2 Ar sail yr ystyriaethau cychwynnol hyn, credir y dylid rhoddi ystyriaeth manylach i'r uchod a chynnwys *Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i gynghorwyr* (CLILC) gan eu haddasu yn benodol i Wynedd a/neu lunio protocol penodol ar gyfer y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan gynghorwyr. Credir bod hyn yn waith y byddai'n briodol i'w gyflawni ar y cyd rhwng y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Safonau.

3. ARGYMHELLION

3.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:-

- a) argymhell y dylai Gwynedd fabwysiadu eu canllawiau eu hunain ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol
- b) argymhell sefydlu is-grŵp ar y cyd gyda'r Pwyllgor Safonau i gydweithio ar lunio canllawiau cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr ar gyfer Gwynedd (gyda'r union broses ar gyfer cyflawni hynny i'w gytuno rhwng Cadeiryddion y ddau bwyllgor)
- c) enwebu [3] aelod o'r pwyllgor i wasanaethu ar yr is-grwp



Cyfryngau cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr

Awst 2013

Cysylltu

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)

Prif ddibenion WLGA yw hybu safonau ac enw da byd llywodraeth leol a helpu cynghorau i lunio polisiau a blaenoriaethau fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

Mae'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol ac mae'r 3 gwasanaeth tân ac achub a'r 3 pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Tŷ Llywodraeth Leol

Rhodfa Drake

Caerdydd

CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8600

www.wlga.gov.uk

Cyhoeddwyd: Awst 2013

Hawlfraint: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

ISBN: 978-1-906423-99-5

Mae arnom ddyled i'r swyddogion a'r aelodau sydd wedi cyfrannau at y canllaw hwn, yn arbennig yr aelodau a gymerodd ran yn hyfforddiant WLGA i aelodau am Gyfryngau Cymdeithasol, y rhwydwaith swyddogion cymorth aelodau, LLG a Swyddogion Monitro a SOCITIM. Hefyd i Kevin O'Keefe o EXCELA INTERIM MANAGEMENT & CONSULTANCY LTD www.excela.co.uk sydd wedi cyfrannu at y canllaw ac wedi cyflwyno'r rhaglen hyfforddiant.

Oherwydd datblygiadau cyflym yn y maes hwn bydd y canllaw hwn yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Croesawn awgrymiadau i'w cynnwys ac mae hyfforddiant pellach i aelodau ar gael oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cysylltwch â Sarah Titcombe, Ymgynghorydd Datblygu Sefydliadau a'u Staff – 029 2046 8638 sarah.titcombe@wlga.gov.uk.

Rhagair

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r canllaw defnyddiol hwn am gyfryngau cymdeithasol sy'n rhoi syniad clir i gynghorwyr o beth yw'r arfau hyn a sut allwn ni eu defnyddio. Mae rhai syniadau gwych i'n helpu i feddwl am sut rydym yn manteisio i'r eithaf ar y ffurfiau cyfathrebu effeithiol a rhad hyn.

Mae cyfryngau cymdeithasol wedi newid sut rydym yn gweithio yn Sir Fynwy. Mae gan bob un o'n gweithwyr a'n haelodau ganiatâd i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar unrhyw adeg er mwyn manteisio i'r eithaf ar beth sydd gan sianeli fel Twitter a Facebook i'w cynnig. <http://acedigitalcomms.wordpress.com/2013/05/29/unrestricted-staff-access-to-social-media-access-a-roundup/>

Yn fyr, maent yn ffordd hawdd o siarad â'n trigolion, busnesau lleol a chyrrff partner eraill ac o wrando arnyn nhw. Heb fynediad i'r dulliau hyn byddem yn gorff gwannach gan na fyddem yn clywed beth sy'n bwysig i bobl yn ein cymunedau, y pethau maent eisiau cymryd rhan ynddynt a'u barn nhw am eu cyngor.

Mae cyfryngau cymdeithasol wedi rhoi cyfle i ni fod yn greadigol a rhoi cynnig ar bethau newydd. Mae ein gofalwyr maeth yn Sir Fynwy yn defnyddio Yammer i aros mewn cysylltiad a dysgu oddi wrth ei gilydd.

<http://monmouthshirecc.wordpress.com/2012/03/12/rewind-story-fostering-communication-using-yammer/>

Defnyddiwn YouTube i ymgynghori am ein cyllideb.

<http://digitalmon.wordpress.com/2013/01/13/youtubing-a-budget-consultation-and-how-a-great-blogger-helped-us-get-better/>

Gwnaethom ni hyd yn oed recriwtio pennaeth presennol ein gwasanaethau plant gan ddefnyddio YouTube, Twitter a LinkedIn.

<http://acedigitalcomms.wordpress.com/2011/07/11/social-care-recruiting-using-social-media-how-monmouthshire-council-is-recruiting-a-head-of-childrens-services-using-youtube/>

Rwyf innau'n defnyddio Twitter a'm blog i gysylltu â thrigolion, cynghorwyr a ffermwyr eraill a phobl sy'n rhannu fy niddordebau i. Rwy'n gweld gwerth mawr yn y ffurf hon o gyfathrebu – mae cyfryngau cymdeithasol erbyn hyn yn arf busnes dilys.

<http://digitalmon.wordpress.com/2013/01/12/councillor-peter-fox-leader-of-the-council-talking-about-social-media/>

Gobeithio y mwynhewch y canllaw addysgiadol iawn hwn.



Y Cynghorydd Peter Fox
Arweinydd Cyngor Sir Mynwy
Llefarydd WLGA dros TGCh a
Chynhwysiant Digidol

Cyflwyniad

Mae chwyldro'n digwydd yn y ffordd rydym yn cyfathrebu. Mae'r byd yn gweld y newid mwyaf erioed mewn sut mae gwybodaeth yn cael ei chreu a'i meddiannu, yn ogystal â chyflymder gallu ei rhannu. Mae hyn yn newid sut rydym yn byw, yn gweithio a hyd yn oed sut rydym yn siarad ac yn meddwl.

Canllaw yw hwn ar gyfer Cyngorwyr a hoffai ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel arf i rannu gwybodaeth, agor trafodaethau newydd â phobl yn eu cymuned a'r tu hwnt, ac ennyn diddordeb eu hetholaeth mewn sgwrs ddwy ffordd gynhyrchiol.

Rydym yn byw mewn byd cyfathrebu agored, hygyrch a dynamig. Bydd defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn helpu i sicrhau bod eich llais chi'n cael ei glywed.

1. Beth yw cyfryngau cymdeithasol?

Term hollgynhwysol yw cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio at amrediad o ddulliau aml-gyfrwng ar-lein sy'n cael eu defnyddio i greu cynnwys a chyfathrebu dwyffordd. Mae modd eu cyrchu drwy eich ffôn smart, cyfrifiadur, gliniadur, tabled neu'ch teledu smart. Mae pob cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn rhad ac am ddim ac mae modd eu sefydlu'n gyflym ac yn rhwydd o dudalen Rhyngrwyd. Er y bydd y canllaw hwn yn canolbwyntio ar Facebook a Twitter, mae

enghreifftiau defnyddiol o gyfryngau cymdeithasol yn cynnwys:

Blogiau sy'n debyg i ddyddlyfr ar-lein lle gallwch chi rannu gwybodaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys Wordpress, Blogger, SimpleSite. Dyma enghraifft o blog nodweddiadol aelod - <http://hughefans.wordpress.com/>

Awgrym gorau:

Rhannwch eich meddyliau a'ch gweithgareddau, a rhowch sylwadau am y materion sydd bwysicaf i chi. Gallai cadw blog rheolaidd ei gwneud hi gymaint yn haws i lunio'ch adroddiad blynyddol.

Mae **meicro-blog** yn caniatáu i ddefnyddwyr rhannu darnau byrrach o wybodaeth. Mae **Twitter** yn enghraifft o feicro-blog. Mae negeseuon byr rydych chi'n eu postio ar Twitter yn cael eu galw'n "Drydarau" – mae pob un yn gyfyngedig i 140 o gymeriadau (llythrennau, rhifau a gofodau). Nid yw trydarau'n ddull cyfathrebu preifat a gall unrhyw un sy'n eich "dilyn" eu gweld nhw. Mae gan Twitter gyfleuster negeseuo hefyd lle gallwch anfon negeseuon yn uniongyrchol at ddefnyddwyr eraill Twitter. Fodd bynnag, gall pob neges o'r fath rydych yn ei chyfeirio'n bersonol gael ei gweld gan eich holl ddilynwyr eraill hefyd. Gallwch chi hyd yn oed anfon Trydarau defnyddwyr eraill Twitter ymlaen at eich dilynwyr eich hun, drwy ddefnyddio'r swyddogaeth Aildrydar.

Tweeting is a good way of promoting local events, live tweeting @council meetings and to give links to longer posts. #Jaynecowan

Awgrym gorau:

Dilynwch a mynnwch gael eich dilyn. Mae Twitter yn ffordd dda iawn o gael gwybod beth sy'n digwydd, a barn pobl am faterion lleol a byd-eang. Gwrandewch yn gyntaf ac yna ymunwch yn y sgwrs.

Mae **Rhwydweithiau Cymdeithasol** fel **Facebook** yn debyg i gynnal eich gwefan bach eich hun sy'n gallu cynnwys lluniau a thestun ac yn gallu darparu gwybodaeth a ffotograffau. Yn nodweddiadol mae'r safleoedd hyn yn eich galluogi i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am beth rydych chi'n ei wneud neu'n ei feddwl drwy ddiweddarau 'statws', gan adael i chi siarad am bwy ydych chi, beth sy'n bwysig i chi, beth rydych chi wedi ei wneud a'ch cynlluniau. Gallwch chi wahodd pobl i fod yn 'ffrindiau' i chi a gosod lefelau mynediad gwahanol i'ch cyfrif, fel bod rhai pobl yn cael gweld yr holl wybodaeth amdanoch chi neu gallwch drefnu bod llai o fanylion ar gael i bobl eraill. Hefyd gallwch ddefnyddio Facebook i gyfathrebu â grwpiau neu unigolion. Os bydd pobl yn ymddiddori yn eich tudalen, eich sylwadau neu'ch cynigion gallan nhw eich "hoffi" chi, sy'n annog defnydd pellach, ac yn ffordd ddefnyddiol o gynnal pŵl gwelltyn o'ch syniadau.

Mae **Linked-IN** yn cyfateb i Facebook ar lefel broffesiynol. Gallwch ddarparu gwybodaeth am hanes eich gyrfa a'ch sgiliau, a gall pobl rydych yn "gysylltiedig" â nhw eich cefnogi chi ar gyfer sgiliau penodol. Mae hwn yn safle defnyddiol i ddod o hyd i arbenigedd a mynnu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau busnes yn eich ward neu'ch ardal.

Mae **Flickr, Vimeo, Instagram** a **You Tube** yn enghreifftiau o blatfformau i

rannu fideo a ffotograffau. Peidiwch anghofio ofyn am ganiatâd cyn tynnu lluniau i'w llwytho i'r safleoedd hyn, neu gopïo delweddau ohonynt. Cymhwysiad am negeseuon lluniau yw **Snapchat** ar gyfer ffotograffau, fideo, lluniadau a thestun.

Mae **Cymunedau Ymarfer** yn ffordd i bobl o'r un bryd ymuno â chymuned lle gallant rannu gwybodaeth a thrafod materion sy'n berthnasol i'r Gymuned er enghraifft Porth Gwybodaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol.

2. Pam Dylech Chi Ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol?

Bydd cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu i chi gychwyn sgysiau newydd â'r bobl rydych chi'n eu cynrychioli, ac mae'r potensial i gynghorwyr sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn aruthrol. Bydd gan eich Cyngor gyfrifon swyddogol ar Twitter yn barod a bydd cyfrifon Facebook gan lawer hefyd. Yn ogystal mae'n bosibl bod Pwyllgorau Craffu yn

defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgymryd ag adolygiadau gwasanaeth.

Felly beth yw manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gynghorwyr?

- Mae nifer cynyddol o bobl yn defnyddio Twitter a Facebook fel y dull cyfathrebu sydd orau ganddynt. Os oes gennych chi bresenoldeb ar y platfformau hyn mae gennych y potensial i sefydlu cyfathrebu dwyffordd â phob un ohonyn nhw.
- Mae'n ffordd ddefnyddiol o ddysgu beth mae pobl yn siarad amdano'n lleol, eu pryderon a'u diddordebau.
- Mae'n ddefnyddiol ar gyfer dysgu am y newyddion diweddaraf un, yr ymchwil neu'r cyhoeddiad diweddaraf neu gyhoeddiadau polisi diweddaraf pleidiau gwleidyddol.
- Mae'n ffordd dda o sicrhau bod etholwyr yn fwy ymwybodol o'r gwaith rydych chi'n ei wneud yn bersonol.
- Mae'n ffordd effeithiol o gyd-drefnu ymgyrchoedd er enghraifft caniatáu mynediad i'ch cyfrif Facebook i weithwyr ymgyrchu.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn eich galluogi i gael sgwrs ag amrediad o bobl na fydech chi byth yn gallu cwrdd â nhw'n gorfforol ac nad ydyn nhw'n draddodiadol yn mynd i gwrdd â'u cynrychiolwyr lleol.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu am gyfathrebu ar fyrder. Gallwch drosglwyddo gwybodaeth a derbyn safbwyntiau mewn munudau. Gallwch chi anfon ymlaen gwybodaeth oddi wrth bobl eraill yr un mor gyflym.

Nid yw "Mynd yn Firaol" yn beth drwg o reidrwydd, gan gyfeirio at ledaeniad torfol darn o wybodaeth ledled y byd.

- Bydd y wasg leol ac weithiau cenedlaethol yn dilyn Cynghorwyr ar Twitter neu Facebook. Mae hyn yn golygu eu bod yn gwybod beth rydych chi'n siarad amdano y funud rydych chi'n siarad amdano.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn symudol. Byddan nhw gyda chi o amgylch eich cymuned, ar y trê, mewn siop goffi neu fore coffi neu hyd yn oed yn y gwely.
- Gallwch chi lwytho lluniau a fideos, gan ddangos er enghraifft eich rôl chi mewn digwyddiadau lleol, lluniau o ddarpar safleoedd datblygiad, adeiladau newydd, doluriau llygad lleol – mae llun yn mynegi mil o eiriau.
- Mae'n rhad ac am ddim, nid oes unrhyw dâl am gyfrif, mae'n debyg bod gennych chi'r offer mae ei angen yn barod. Y cyfan mae arnoch ei angen yw amser.
- Gallwch gael adborth ar unwaith am eich syniadau a'ch maniffesto i'ch galluogi i addasu'ch cynigion yn unol â'r farn leol.
- Yn anad dim, mae'n gallu bod yn llawer o hwyl!

3. Sut i Ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn effeithiol

- Dewiswch eich cyfrwng a chofrestrwch. Mae hyn yn syml iawn a bydd yn cymryd llai na phum munud i chi!
- Mae Facebook a Twitter yn fannau cychwyn da. Efallai yr hoffech chi ddechrau gyda chyfrif personol fel treial (yn hytrach na galw'ch hun yn "Cynghorydd Jones") ac arbrofi gyda'ch teulu a ffrindiau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall sut mae pobl yn dod o hyd i chi a phwy sydd â mynediad i'ch deunydd chi. Cofiwch:
 - Ar Facebook gallwch chi reoli pwy sydd â mynediad i wahanol rannau o'ch cyfrif. Chi sy'n cael rheoli beth mae'r byd yn ei weld a beth mae'ch "ffrindiau" chi'n ei weld.
 - Ar Twitter gall y byd i gyd weld popeth rydych chi'n ei Drydar. Mae hyd yn oed y negeseuon rydych chi'n eu Trydar yn uniongyrchol i bobl eraill yn gallu cael eu gweld gan unrhyw un oni bai eich bod wedi cloi'ch cyfrif i lawr i ddilynwyr.
- Pan fyddwch chi'n barod i sefydlu'ch cyfrif terfynol, ystyriwch beth rydych yn galw arnoch chi'ch un. Mae'r enw rydych yn ei roi i'ch hunan ar-lein yn bwysig gan ei fod yn galluogi pobl i ddod i hyd i chi. Mae rhagflaenu'ch cyfrif Twitter â 'Cynghorydd' yn gadael i bobl wybod yn union pwy ydych chi

ac yn arwydd y bydd y Cod Ymddygiad yn gymwys.

- Efallai y byddwch chi am ystyried sefydlu cyfrif personol a chyfrif "proffesiynol" ar wahân - gallwch chi siarad am y bwyd anhygoel yn y bwyty rownd y gornel wrth eich ffrindiau a'ch dilynwyr yn eich cyfrif anffurfiol, ac am y cynlluniau am y ffordd osgoi newydd wrth eich ffrindiau a'ch dilynwyr yn eich cyfrif proffesiynol. Fodd bynnag, mae llawer o gynghorwyr yn meddwl bod rhai o'u sylwadau personol am fwyd, llefydd maen nhw wedi ymweld â nhw, gemau pêl-droed neu'r teledu yn helpu i chwalo canfyddiadau am gynghorwyr ac yn profi eu bod yn normal fel pawb arall!

I use Twitter to speak with residents and engage more broadly. Also to twitter on about books, music, trains and ale Almost human

@LukeOHolland
Cynghorydd Caerdydd

- Gwnewch hi'n hawdd i bobl ddod o hyd i chi ar-lein. Bydd llawer o bobl yn dechrau chwilio Yn ôl yr ardal rydych chi'n ei chynrychioli, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn sôn am eich lleoliad yn aml gan y bydd peiriannau chwilio yn codi hynny wedyn. Hefyd byddwch chi am wneud yn siŵr bod manylion eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar eich cardiau busnes, poster i a dalenni.

- Ar Twitter, cofrestrwch ar Tweety Hall a safleoedd eraill lle mae etholwyr yn gallu dod o hyd i'w cynghorwyr.
- Cynyddwch eich presenoldeb ar y we drwy gysylltu â phobl a safleoedd eraill, gadael sylwadau am bostiadau eraill ac annog pobl eraill i gysylltu â chi. Po fwyaf y cewch eich enwi, mwyaf i gyd y bydd pobl yn dod o hyd i chi.
- Dewiswch eich ffrindiau ar Facebook a phwy hoffech chi eu dilyn ar Twitter. Cadwch mewn cof fod pobl yn gwybod pwy sy'n eu dilyn ac yn aml byddant yn eich dilyn chi yn gyfnewid. Dewch o hyd i bob ar Twitter sydd â chysylltiadau â'ch cymuned, eich sir neu'ch rhanbarth drwy chwilio gan ddefnyddio'r symbol 'hashtag' (#) i ragflaenu'ch term chwilio er enghraifft #Reynoldston, #Gŵyr, #Abertawe, #De-orllewin Cymru, #Cymru.
- Byddwch yn ddisgybledig ynghylch trefnu bod amser ar gael i ysgrifennu cynnwys newydd ac i ateb i'ch "ffrindiau" a "dilynwyr". Trefnwch amser rheolaidd bob wythnos i ddiweddarau'ch statws Facebook a thrwy gydol y dydd i wirio Twitter.
- Penderfynwch beth rydych chi'n mynd i siarad amdano a sut. Gallai hyn fod yn
 - Ddiweddariadau wythnosol am eich gweithgareddau eich hun fel cynghorydd – peidiwch ag anghofio'ch

lluniau! Mae hyn yn gweithio'n well ar Facebook gan y gallwch chi gynnwys mwy o fanylion. Cofiwch mai dim ond 140 o gymeriadau a gewch chi ar Twitter ac mae'n tueddu i fod yn fwy uniongyrchol ac amserol

- Diweddariadau rheolaidd am bolisïau a chmau gan y cyngor sydd o ddiwedd i'ch cymuned
- Cysylltiadau ac aildrydarau am weithgareddau cenedlaethol perthnasol eraill
- Materion yr hoffech chi gael adborth arny'n nhw
- Rhybudd am ddigwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus

Cofiwch mai cyfathrebu dwyffordd yw hanfod defnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae'n dda i ddarparu gwybodaeth i'ch cymuned neu dynnu sylw at ddatganiadau i'r wasg, ond mae'n well fel dull o gael adborth defnyddiol. Fe gewch chi adborth a dylech chi ddisgwyl i rai pobl herio'ch syniadau neu gychwyn trafodaeth â chi ar-lein. Mae hyn yn rhan gynhenid o gyfryngau cymdeithasol.

4. Moesau ac arddull

- Cadwch eich cyfathrebu'n glir, yn gadarnhaol, yn gwrtais ac yn broffesiynol. Mae iaith blaen yn helpu. Mae llawer o bobl yn defnyddio talfyriadau ar Twitter – byddwch chi'n dysgu'r rhain ar hyd y ffordd!
- Osgowch fod yn eironig neu'n wawdlyd, gall hynny gael ei gamddehongli.
- Ar Facebook, bydd angen i chi fonitro ac, os oes angen, sensro'r cyfraniadau mae pobl eraill yn eu gwneud at eich safle; dilëwch nhw os nad ydynt yn cyd-fynd â'ch safonau gofynnol ymddygiad neu iaith. Bydd iaith ddifenwol a thramgwyddus yn cael ei phriodoli i'r cyhoeddwr yn ogystal ag i'r awdur gwreiddiol ac fe allai olygu atebolrwydd ariannol. Chi biau'r penderfyniad a ydych chi am ddileu postiadau sy'n anghytuno â'ch safbwynt gwleidyddol, ond os byddwch chi'ch eu tynnu mae'n bosibl y cewch chi'ch cyhuddo o sensro cyfraniadau ar seiliau gwleidyddol.
- Ar Twitter, gallwch chi flocio pobl sy'n dramgwyddus neu'n flinderus yn gyson. Ond cofiwch fod eu blocio ond yn eu hatal rhag ymwneud â chi'n uniongyrchol, bydd eu trydaraau yn dal i fod yn gyhoeddus i bob un o'u dilynwyr nhw.
- Cadwch mewn cof y gallai sgorio pwyntiau gwleidyddol fod yn anniddorol i etholwyr a bod yn well ganddynt glywed gwybodaeth am beth rydych chi'n ei gyflawni.
- Os nad oes rhaid i chi ddweud dim...peidiwch â dweud dim. Er bod

temtasiwn i adael i'ch dilynwyr wybod pa mor brysur ydych chi, byddan nhw'n diflasu cyn hir ar ddiweddariadau cyson am eich diwrnod heb rywfaint o wybodaeth berthnasol neu ddiddorol.

5. Cefnogaeth oddi wrth y Cyngor

Fel arfer mae Cynghorwyr yn derbyn yr offer TGCh mae arnynt eu hangen i wneud eu swydd. Mae'r Panel Tâl Annibynnol yn disgwyl i hyn gynnwys offer, cefnogaeth a hyfforddiant TGCh.

Mae'n rhesymol hefyd disgwyl bod gennych chi fynediad i safleoedd cyfryngau cymdeithasol i'ch galluogi i gyflawni'ch rôl fel cynghorydd yn fwy effeithiol. Nid oes arnoch chi angen i'r cyngor sefydlu cyfrif personol cyfryngau cymdeithasol i chi ond dylech fanteisio ar unrhyw hyfforddiant neu arweiniad sy'n cael ei roi i'ch helpu i'w ddefnyddio'n briodol.

Mae gan y mwyafrif o gynghorau bolisi Cyfryngau Cymdeithasol. Bydd yn rhaid i chi barchu hwn ac unrhyw brotocolau Cyfryngau Cymdeithasol sydd wedi eu cytuno wrth ddefnyddio'ch cyfrif "cynghorydd".

Mae'n werth cofio mai'r cyngor sy'n gyfrifol am unrhyw wybodaeth a ddarperir ar ei wefan a'i fod yn dod o dan gyfrifoldebau cyfreithiol. **Chi** sy'n bersonol gyfrifol am y deunydd rydych yn ei ddarlledu drwy gyfrwng eich cyfrifon

cyfryngau cymdeithasol neu wefannau eich hun - ond mae mwy am hyn yn nes ymlaen.

Bydd cyngor ar gael i chi oddi wrth nifer o swyddogion y cyngor. Mae'n debyg y bydd cyngor defnyddiol gan y Swyddog Monitro, y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, y Tîm Cyfathrebu a'r Rheolwr TGCh.

6. Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfarfodydd Cyngor

Yn ddiweddar, yn enwedig gyda dyfodiad gweddarlleddu, bu cynnydd mewn diddordeb yn nefnydd Twitter mewn cyfarfodydd Cyngor. Bydd angen i chi gael eich arwain gan gyfansoddiad eich cyngor, wrth reswm. Ac eithrio'r hyn sydd yn eich cyfansoddiad neu'ch polisi cyfryngau cymdeithasol, nid oes unrhyw reswm cyfreithiol pam na ddylech chi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol o gyfarfodydd. Fodd bynnag, mae angen defnyddio ychydig o synnwyr cyffredin.

- Mae trydar am gynnydd cyfarfod a derbyn sylwadau oddi wrth y gymuned yn gallu bod yn ddefnyddiol o safbwynt tryloywder ac ymgysylltu OND mae'n bosibl y bydd defnydd eithafol ar Twitter yn rhoi'r argraff i bobl nad ydych chi'n canolbwyntio ar y buses wrth law neu hyd yn oed yn dibynnu ar arweiniad o'r tu allan i'r cyfarfod. Am y rheswm hwnnw, yn fwy na thebyg mae'n synhwyrol peidio â defnyddio Twitter yn ystod trafodaeth gynllunio neu drwyddedu.

Efallai y bydd cadeiryddion Pwyllgor yn dymuno penderfynu sut i ddelio â hyn yn eu cyfarfodydd nhw a dylech chi barchu'r rheolau a bennir yn eich cyfansoddiad.

- Cofiwch, mae'n bosibl na fydd angen i chi drydar am fanylion cyfarfod – mae rhai cynghorau yn cyflwyno trefniadau newydd i weddarlleddu cyfarfodydd ac mae'n bosib bod ganddynt borthiannau Twitter "swyddogol" am sgysiau byw ar-lein i redeg ochr yn ochr â chyfarfodydd.
- Os yw'ch cyngor chi yn gweddarlleddu'ch cyfarfodydd, dyma ffordd ddefnyddiol i'r cyhoedd weld beth sy'n digwydd o lygad y ffynnon a sicrhau bod unrhyw recordiadau fideo yn gywir. Gall ffilmio cyfarfodydd yn anffurfiol, p'un ai cynghorwyr neu'r cyhoedd sy'n gwneud hynny, beri anawsterau ac fe arfer trafodir hyn yn y Cyfansoddiad. Fe all dynnu sylw oddi wrth y trafodion ac os bydd fersiwn wedi ei olygu yn ymddangos ar You Tube fe allai greu argraff anghywir.
- Cofiwch na ddylech chi drydar neu gyfathrebu mewn unrhyw ffordd gynnwys busnes esempt neu gyfrinachol sy'n cael ei drafod gan awdurdodau lleol mewn sesiwn caeedig, er enghraifft wrth wneud penodiadau ffurfiol.

7. Y Gymraeg

Gallwch chi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn iaith eich dewis; nid oes rhaid i chi gyfieithu'ch trydarau neu gyfrifon Facebook personol.

Fodd bynnag efallai y bydd ffrydiau cyfryngau cymdeithasol Cynghorau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân neu'n ddwyieithog. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn teimlo nad oes unrhyw angen i ffrydiau cyfryngau cymdeithasol fod yn ddwyieithog gan y bydd y ddwy ffrwd yn cael eu cyrchu gan gymunedau gwahanol ac yn ddigon ar gyfer pob un.¹

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o reolau'ch Cyngor am ddefnydd y Gymraeg a bennir yn eich Cynllun Iaith Gymraeg.

8. Rheolau euraid

Meddylwch cyn trydar neu bostio ar Facebook. Peidiwch â dweud dim, postio safbwynt na barn na fyddech chi'n fodlon:

- Ei drafod wyneb i wyneb gyda'r sawl rydych chi'n siarad amdano/amdani.
- Ei ysgrifennu ar hysbyslen a'i gario i lawr eich stryd fawr a'i drafod a'i amddiffyn gydag unrhyw un sy'n ei weld.
- Iddo gael ei gofnodi mewn cyfarfod cyhoeddus – cofiwch, yn y bôn mae Twitter neu Facebook yn cofnodi popeth yn gyhoeddus i chi wrth i chi fynd yn eich blaen!

¹ <http://www.participationcymru.org.uk/home/all-wales-public-service-organisations-internet-and-social-media-survey?diablo.lang=cym>

Cofiwch ar ôl i chi ddweud rhywbeth y gallai gael ei weld gan filiynau o bobl - ffrindiau, cefnogwyr, gwrthwynebwyr gwleidyddol a'r wasg ac y gallai gael ei aildrydar o amgylch y byd mewn munudau.

Cadwch eich negeseuon yn broffesiynol, yn gwrtais ac yn bositif.

Cofiwch geisio cadw trydarau a negeseuon testun ar wahân – mae llawer o bobl yn trydar sylwadau y byddent wedi ei hanfon mewn neges destun i rywun yn breifat o'r blaen; gallai hyn fod am gwrdd yn nes ymlaen (ydych chi eisiau i'ch holl ddilynwyr wybod am eich cynlluniau a thorri ar draws eich cinio!?) drwodd i jôcs personol a allai gael eu camddehongli.

Peidiwch â dilyn unigolyn oni bai eich bod yn ei adnabod neu mae gennych chi reswm da dros wneud. Byddai rhai pobl, fel etholwyr neu weithwyr y cyngor, efallai'n teimlo'n anghysurus petai eu cynghorydd lleol yn dilyn pob gair maen nhw'n ei ddweud.

Os gwnewch chi gamgymeriad, cyfaddefwch hynny. Mae camgymeriadau'n digwydd felly peidiwch â cheisio ei guddio achos bydd cofnod o beth rydych chi wedi ei ddweud bob tro.

Peidiwch ag ymuno â dadleuon anefnyddiol ar-lein; cofiwch y bydd eich holl ddilynwyr neu ffrindiau yn dilyn hyn ar-lein. Anwybyddwch bobl neu eu blocio

nhw os ydyn nhw'n gwneud sylwadau blinderus yn gyson.

Peidiwch â thrydar neu bostio ar Facebook pan fyddwch chi "wedi blino". Y peth synhwyrol mae'n debyg yw troi eich ffôn i ffwrdd ar unrhyw adeg pan gredwch fod eich barn o bosibl yn ddiffygiol.

Cadwch mewn cof ei bod yn bosibl i'ch dilynwyr a'ch ffrindiau gael eu gweld, os byddwch chi'n dilyn neu'n "ffrindiau" ar Facebook gyda gweithwyr y cyngor, contractwyr sydd wedi eu caffael i ddarparu gwasanaethau i'r cyngor, cwmni neu aelod o'r cyhoedd sy'n gwneud cais cynllunio neu garfannau pwyso. Fe *allai* hyn gael ei ystyried fel cysylltiad personol agos gyda nhw ac felly'n fuddiant personol.

Yn yr un modd â'ch taflenni neu'ch newyddlenni eich hun, gofynnwch am ganiatâd bob tro cyn tynnu llun rydych chi'n bwriadu ei ddefnyddio. PEIDIWCH BYTH â thynnu lluniau o blant heb ganiatâd penodol eu rhiant ar sail dealltwriaeth o beth rydych chi'n bwriadu defnyddio'r llun amdano. Bydd gan eich cyngor bolisi ar dynnu lluniau o blant, cymerwch gyngor ar hyn cyn tynnu neu ddefnyddio lluniau.

Peidiwch â gadael i neb arall gael mynediad i'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Amddiffynnwch eich cyfrineiriau yn enwedig os byddwch chi'n defnyddio cyfrifiadur cyhoeddus.

Yn debyg i e-bost, gallwch chi dderbyn sbam mewn cyfryngau cymdeithasol! Byddwch yn wylidwrus am negeseuon uniongyrchol drwy gyfrwng Twitter, hyd yn oed oddi wrth bobl rydych chi'n eu hadnabod, sy'n dwyn negeseuon fel 'Helo, ydych chi wedi gweld y ffoto yma ohonoch chi ar Twitter?' Dilëwch y rhain cyn eu hagog, gan y gallai'r sbam gael ei anfon wedyn at yr holl bobl rydych chi'n ei dilyn...

9. Maglau Posibl a Sut i'w Hosgoi

Amser ac Ymroddiad

Mae'n gallu cymryd amser i gynnal eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mae llawer o bobl yn mynd ati'n frwdfrydig ac yna'n gadael i'w cyfrifon sefyll heb eu defnyddio. Mae hyn yn beryglus gan y gallai ffrindiau a dilynwyr gredu nad ydych chi'n weithgar neu, yn waeth, nad ydych chi'n ymateb.

I osgoi hyn:

- Sefydlwch gyfrifon y gallwch chi eu rheoli yn unig, dewiswch naill ai Twitter neu Facebook os oes angen. Mae'n bosibl sefydlu cysylltiadau rhwng y ddau a fydd yn eich arbed rhag dyblygu gwybodaeth.
- Rhowch amser o'r neilltu'n rheolaidd i'w diweddarau a dewch yn gyfarwydd â bachu'r cyfle i gyfathrebu wrth fynd a dod.

Y Gyfraith

Mae cynghorwyr sy'n newydd i gyfryngau cymdeithasol yn tueddu i boeni am y goblygiadau cyfreithiol. Mae'n ystyriaeth bwysig, ac mae rhai cynghorwyr a gwleidyddion eraill wedi torri'r gyfraith, ond drwy ddefnydd gofalus a dilyn rhai rheolau sylfaenol byddwch chi'n iawn!

Mae'r arddull gyfathrebu sy'n cael ei defnyddio yn amgylchedd cyfryngau cymdeithasol yn tueddu i fod yn gyflym ac yn anffurfiol. Gall negeseuon ymddangos yn fympwyol ac yn fyrhoedlog.

Pryd bynnag y cyhoeddwch chi rywbeth ar gyfryngau cymdeithasol, mae'n dod yn gyhoeddiad, mewn gwirionedd rydych chi wedi gwneud darllediad. Gan ei fod bellach yn y parth cyhoeddus, mae'n dod o dan y **Cod Ymddygiad** ac amrywiol **Gyfreithiau**.

Y Cod Ymddygiad

Os byddwch chi'n ymddwyn ar Twitter neu Facebook fel y byddech chi ar y stryd neu yn eich taflenni, yna byddwch chi'n berffaith iawn.

Cofiwch, yn ôl y canllawiau oddi wrth yr Ombudsmon, fod y Cod Ymddygiad yn gymwys i chi pryd bynnag rydych chi'n "Cyflawni busnes eich awdurdod, yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn eich rhinwedd swyddogol fel aelod neu gynrychiolydd eich awdurdod". Mae'r Cod yn gymwys hefyd os byddwch chi'n "ymddwyn mewn dull y gellid ei ystyried

yn rhesymol fel dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod"². Os gallwch chi gael eich adnabod fel cynghorydd pan fyddwch chi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, naill ai drwy enw'ch cyfrif neu sut rydych yn disgrifio'ch hun neu drwy'r hyn rydych chi'n rhoi sylwadau arno a'r sylwadau eu hunain, mae gofynion y Cod Ymddygiad yn gymwys. Hefyd os dwedwch rywbeth y gellid ei ystyried fel dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod, mae'r Cod yn gymwys hyd yn oed na nad ydych yn ôl pob golwg yn gweithredu yn eich rhinwedd swyddogol neu'n adnabod eich hun fel aelod. Cofiwch fod canllawiau'r Ombudsmon yn dweud "Gallai beirniadu'ch awdurdod yn annheg neu'n anghywir mewn arena gyhoeddus gael ei ystyried fel dwyn anfri ar eich awdurdod".

Yn yr un modd â'r gofynion arnoch o ran ymddygiad mewn cyfarfodydd cyngor neu yn eich cymunedau, dylech:

- **Ddangos parch tuag at eraill** – peidiwch â defnyddio cyfryngau cymdeithasol i fod yn anfoesgar neu'n amharchus
- **Peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol am bobl neu'r cyngor**
- **Peidio â bwlio neu ddychrynu eraill** - gallai sylwadau negyddol cyson am unigolion neu tuag atynt gael ei ddehongli fel bwlio neu ddychrynu

² <http://www.ombudsman-wales.org.uk/cy-GB/publications/Guidance-policies.aspx>

- **Peidio â cheisio sicrhau budd i'ch hunan neu anfantais i bobl eraill**
- **Parchu cyfreithiau cydraddoldeb** – peidiwch â chyhoeddi dim a allai gael ei ystyried fel gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, oedran, yn homoffobig neu'n wrth-fydd. Hyd yn oed fel jôc neu "â'ch tafod yn eich boch".

Rhagosodiad

Fel cynghorydd, rydych yn ymwybodol pan fyddwch chi'n gweithredu mewn modd lled-farnwrol, er enghraifft ar bwyllgor cynllunio neu drwyddedu, na ddylech chi benderfynu ar fater sydd i'w benderfynu'n ffurfiol cyn i chi glywed yr holl wybodaeth berthnasol. Gallwch chi ragdueddu tuag at safbwynt penodol ond heb fynd mor bell â rhagosod eich safbwynt. Mae'n bwysig cofio felly y gallai unrhyw beth rydych chi wedi ei ddweud am faterion penodol ar gyfryngau cymdeithasol gael ei ddefnyddio'n dystiolaeth eich bod wedi penderfynu ymlaen llaw cyn clywed yr holl wybodaeth berthnasol.

Tramgwyddau Troseddol

Peidiwch â brawychu! Mae'r rhain fel rheol yn gymwys i chi yn barod o ran eich ymddygiad fel cynghorydd, ond mae'n werth eu hystyried fel maen nhw'n berthnasol i gyfryngau cymdeithasol:

Aflonyddu – Mae'n dramgwydd troseddol parhau i gynnal ymgyrch yn erbyn rhywun lle mae hyn yn

debygol o beri gofid, aflonyddwch, niwsans neu drallod.

Diogelu Data – Mae'n anghyfreithlon cyhoeddi data personol am unigolion oni bai eu bod wedi rhoi eu caniatâd i chi. Gallai hyn fod yn gymwys i'ch etholwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Fel cynghorydd rydych yn rheolwr data yn eich hawl eich hun ac felly'n bersonol gyfrifol am yr hyn rydych chi'n ei gyhoeddi.

Annog - Tramgwydd troseddol yw annog unrhyw weithred droseddol.

Gwahaniaethu a throeddau gwaethygedig Hiliol (neu unrhyw Nodwedd warchoddedig arall) -

Tramgwydd troseddol yw gwneud sylwadau gwahaniaethol am unrhyw un ar sail "Nodwedd Warchoddedig" fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Cydraddoldeb (fel ei hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol ac ati).

Cyfathrebiadau Maleisus ac Anllad

– Tramgwydd troseddol yw anfon cyfathrebiadau maleisus neu anllad.

Y Gyfraith Sifil

Dyma lle mae pethau'n mynd yn fwy peryglus i unrhyw un sy'n defnyddio Twitter neu Facebook, p'un a ydyn nhw'n gynghorwyr, yn aelodau o'r cyhoedd neu'n enwogion...

Difenwi - Mae yn erbyn y gyfraith i wneud datganiad ffug am rywun sy'n niweidio ei enw da personol neu broffesiynol. Yn hollbwysig - hyd yn oed os byddwch chi ond yn aildrydar neu'n trosglwyddo gwybodaeth a gafodd ei phostio'n wreiddiol gan rywun arall, gallwch chi gael eich dal yr un mor gyfrifol â'r sylwebydd gwreiddiol. Gall hyn fod yn wir am gyhoeddi delweddau hefyd. Os cewch eich dyfarnu'n atebol i rywun arall, gallech chi gael eich gorchymyn i dalu symiau mawr o arian fel iawndal.

"High Court: Sally Bercow's Lord McAlpine tweet was libel"

<http://www.bbc.co.uk/news/world-22652083>

Hawlfraint - Mae perchnogaeth gyfreithiol cynnwys dogfennau, ffotograffau, fideos a cherddoriaeth yn nwylo'r person

a'u creodd. Gallech chi fod yn torri hawlfraint os byddwch chi'n atgynhyrchu deunydd o'r fath heb ganiatâd y perchennog. Gofynnwch am ganiatâd ysgrifenedig bob tro cyn defnyddio deunydd rhywun arall.

Sylwadau gwleidyddol ac ymgyrchu dros etholiad -

Cofiwch er ei bod yn dderbyniol gwneud pwyntiau gwleidyddol neu ganfasio pleidleisiau drwy'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eich hun ni fydd hyn yn cael ei ganiatáu os ydych chi'n gwneud hyn drwy gyfrwng offer cyfrifiadur a ddarperir gan y cyngor, yn bendant felly wrth nesáu at etholiadau. Mae gan y Comisiwn Etholiadol fwy o wybodaeth am yr elw ar wariant y mae angen i ymgeiswyr ei ddarparu ar ddeunyddiau hysbysebu neu ymgyrchu.

10. Gwybodaeth bellach, safleoedd diddorol a Ffynonellau Cymorth

Cadwch mewn cof fod gwybodaeth, safleoedd a therminoleg yn newid yn gyflym. Mae Facebook eisoes yn adrodd gostyngiad yn nifer ei ddefnyddwyr. Ond bydd y plattform cyfryngau cymdeithasol mawr nesaf ar ei ffordd cyn pen dim. Dyma rai enghreifftiau cyfredol o wybodaeth a safleoedd defnyddiol ond cadwch mewn cof y gallant fynd yn hen yn gyflym iawn.

Cofrestrwch ar Twitter yma
<https://twitter.com/>

Cofrestrwch ar Facebook yma
<https://en-gb.facebook.com/>

Tweety Hall. Plattform sy'n casglu ynghyd yr holl Gynghorwyr sydd â chyfrifon Twitter yn y Deyrnas Unedig er mwyn i'w postiadau gael eu darllen mewn un man a gall y cyhoedd ddod o hyd i'w cynghorydd lleol nhw yn rhwydd. I ymuno â nhw mae ond angen anfon Trydar atyn nhw.
<http://tweetyhall.co.uk/>

Cynghorwyr yr 21ain ganrif
<http://socialmedia.21st.cc/>
Arweiniad defnyddiol i aelodau am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

<http://kindofdigital.com/>

asiantaeth arloesi ar-lein sy'n helpu cyrff i ymgysylltu ar-lein â dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid. Mae ganddi enghreifftiau defnyddiol o ganllawiau ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae **Porth Gwybodaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol** yn enghraifft o gymuned ymarfer. Sefydlwyd hwn yn benodol ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes llywodraeth leol ac mae ganddo fforymau ar-lein, llyfrgelloedd llawn deunyddiau a manylion digwyddiadau.
<https://knowledgehub.local.gov.uk>

Cyfryngau cymdeithasol a Chymuned Cydweithredu ar-lein. Ymunwch â chymuned hon y Porth Gwybodaeth i siarad â chynghorwyr a swyddogion eraill sy'n gweithio gyda chyfryngau cymdeithasol.

11. Geirfa

Blog

Term sydd wedi dod o Weblog h.y. dyddlyfr neu ddyddiadur ar y rhyngrwyd

Blogosffer

Yr holl flogiau ar y rhyngrwyd

Cymuned Ymarfer

Grŵp o bobl sy'n aelodau o 'glwb' ar-lein am fod ganddyn nhw rôl neu ddiddordeb mewn maes gwaith

Neges Uniongyrchol

Neges sy'n cael ei hanfon drwy Twitter at rywun sy'n eich dilyn chi neu rydych chi'n eu dilyn nhw

Facebook

Enghraifft o Rwydweithio cymdeithasol

Flickr

Safle rhannu ffotograffau

Dilynwr

Rhywun sydd wedi dewis eich dilyn chi ar Twitter

Ffrind

Rhywun rydych chi wedi caniatáu mynediad iddynt i'ch tudalen Facebook. Nid o reidrwydd yn ffrind go iawn

Fforwm

Man trafod rhithwir

#Hashtag

Mae hashtag neu # yn ffordd o ddynodi gair allweddol a all gael ei ddefnyddio'n derm chwilio ar Twitter

Instagram

Platfform ar gyfer rhannu ffotograffau a fideos

Instant Messaging

Sgwrs ag un person arall drwy er enghraifft Microsoft Live Messenger neu Yahoo Messenger. Sgwrs sydd, os nodwch eich bod ar gael i sgwrsio, yn fwy uniongyrchol nag e-bost ac yn haws ei deipio na neges destun

Meicroblog

Blog byr e.e. Twitter sy'n defnyddio uchafswm o 140 o gymeriadau

Pinterest

Pinfwrdd rhithwir ar gyfer creu a rhannu delweddau

RebelMouse

Gwasanaeth rhad ac am ddim sy'n cysylltu â'ch cyfrifon mewn gwasanaethau fel Facebook, Twitter ac Instagram. Mae'n integreiddio'ch holl drydarau cyfryngau cymdeithasol, postiadau a blogiau'n awtomatig mewn un dudalen, gan hybu'ch presenoldeb cyfryngau cymdeithasol heb fod rhaid i chi wneud dim ychwanegol gan ei fod yn 'rhedeg yn y cefndir'. Bydd yn eich arbed chi rhag gorfod trydar eich blogiau ac ati i fod yn amlycach mewn peiriannau chwilio.

Aildrydar

Anfon ymlaen trydar rydych wedi ei dderbyn ar Twitter

Porthiannau RSS neu borthiannau

Really Simple Syndication

Negeseuon o wefannau sy'n dweud wrthy ch chi bod gwybodaeth newydd ar gael fel nad oes rhaid i chi wirio'r wefan yn gyson am ddiweddariadau

Meincnodi Cymdeithasol

Dull o arbed a rhannu pob un o'ch hoff safleoedd ar y we, er enghraifft *Delicious*

Rhwydweithio cymdeithasol

Facebook ac yn y blaen

Snapchat

Cmhwysiad negeseuon llun ar gyfer ffotograffau, fideos, darluniadau a thestun

Sbam post sothach electronig

Trendio

Pobl neu sgysiau sy'n boblogaidd ar hyn o bryd, fel *yn trendio ar Twitter ar y funud...*

Trol

Rhywun sy'n amharu ar gymunedau neu drafodaethau ar-lein drwy bostio pethau annefnyddiol neu amherthnasol

Trydar

Neges sy'n cael ei hanfon ar Twitter

Tweety Hall

Man ymgynnull rhithwir ar gyfer cynghorwyr sydd â chyfrifon Twitter

Twitter

Enghraifft o feicroblogio

Vimeo

Platfform i rannu fideo a lluniau

Wikis

Erfyn sy'n caniatáu i unrhyw un ychwanegu at gynnwys gwefan neu ei olygu

Wikipedia

Gwyddoniadur ar-lein sy'n gweithio gan ddefnyddio'r dull hwn ac felly nad yw bob amser yn fanwl gywir

YouTube

Platfform ar gyfer rhannu fideos a ffotograffau

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	10 Medi 2013
PWNC	Gwe Ddarlledu a Mynychu Cyfarfodydd o Bell
PWRPAS	Cyflwyno'r datblygiadau diweddaraf ynghylch cwrdd â gofynion gwe ddarlledu, mynychu cyfarfodydd o bell a'r datblygiadau ynghylch grant i Gyngorau Tref a Chymuned
AWDUR	Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 4 Mehefin 2013, cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf mewn ymateb i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yng nghyd-destun:
- mynychu cyfarfodydd o bell
 - gweddardlledu; a
 - chydweithio gyda chynghorau tref a chymuned i ddatblygu gwefannau.
- 1.2 Adroddwyd hefyd fod y Cyngor wedi arwyddo cytundeb i dderbyn grant o £72,000, gyda rhaniad y gwariant fel a ganlyn:
- £40,000 ar gyfer darlledu cyfarfodydd y Cyngor a chaniatau i aelodau ymuno â chyfarfodydd o bell
 - £32,000 ar gyfer dyrannu grant o hyd at £500 yr un i gyngorau tref a chymuned y sir i sefydlu eu gwefannau eu hunain.
- 1.3 Drwy dderbyn y grant, mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i:

Gyflawni	Erbyn	Tystiolaeth
Wneud darpariaeth i alluogi aelodau i ymuno â chyfarfodydd "o bell"	31 Mawrth 2014	Adroddiad ysgrifenedig yn nodi sawl cyfarfod o'r fath a gynhaliwyd a llwyddiant yr ymarferiad
I ddarlledu yr holl/neu rai o gyfarfodydd y Cyngor	31 Mawrth 2014	Presenoldeb darllediadau ar wefan y Cyngor
Darparu cyllid i gyngorau tref a chymuned i'w cefnogi i ddatblygu eu gwefannau eu hunain	31 Mawrth 2014	Nifer o gyngorau tref a chymuned sydd â safle gwe eu hunain

2. DIWEDDARIAD

- 2.1 Mynychu cyfarfodydd o bell
- 2.2.1 Yn y cyfarfod diwethaf, yn absenoldeb unrhyw ganllawiau, ffurfiodd y Pwyllgor farn gychwynnol ar fynychu cyfarfod o bell, sef:
- a) Cynnig bod y ddarpariaeth ar gael yn yr ystafelloedd fideo cynhadledd yn eiddo'r Cyngor yn Nolgellau a Phwllheli yn unig (er cael sicrwydd am ddibynadwyedd y ddarpariaeth)
 - b) Peidio â chynnig y ddarpariaeth ar gyfer cyfarfodydd lle gwneir

penderfyniadau gweithredol (Cabinet, Cyngor, Pwyllgor Cynllunio, a Phwyllgor Trwyddedu) ar y cychwyn er osgoi unrhyw gwestiynau cyfansoddiadol pe byddai'r offer yn peidio â gweithio ac aelod felly yn methu ymarfer ei hawl pleidleisio (Gobeithir y bydd y canllawiau o'u derbyn yn datrys y mater hwn)

2.2.2 Ar 29 Mai 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori *Mynychu cyfarfodydd o bell: Canllawiau Statudol a wneir o dan Adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011*. Dyddiad cau yr ymgynghoriad oedd 21 Awst 2013. **Gwelir copi o'r ddogfen ymgynghorol yn Atodiad 1.**

2.2.3 Estynnwyd gwahoddiad drwy Rhaeadr i aelodau etholedig y Cyngor i gyflwyno sylwadau ar y ddogfen ymgynghori erbyn 31 Gorffennaf 2013. Ar sail y sylwadau a dderbyniwyd, lluniwyd ymateb ar ran Cyngor Gwynedd i'w anfon yn enw Ioan Thomas, Aelod Cabinet Gofal Cwsmer. **Gwelir copi o'r ymateb a anfonwyd yn Atodiad 2.**

2.2.4 Credir nad oes dim yng nghynnwys y ddogfen ymgynghori Mynychu cyfarfodydd o bell fyddai'n newid barn gychwynol y Pwyllgor hwn ar amodau Gwynedd ar fynychu cyfarfodydd o bell.

2.2.5 O safbwynt trefniadau'r Cyngor i alluogi mynychu cyfarfodydd o bell, y sefyllfa ddiweddaraf yw ein bod yn aros an gadarnhad gan yr Uned Dechnoleg Gwybodaeth ar allu'r offer fideo gynadledda yn Nolgellau a Phyllheli i gysylltu gyda Siambrau Dafydd Orwig a Hywel Dda. **Auditel – pa mor bell ydan ni o weithredu mynychu cyfarfodydd o bell?**

2.3 Gwe ddarlledu

2.3.1 Mae'r datblygiadau wedi eu cwblhau yn Siambr Dafydd Orwig eisoes, a'r gwaith bron wedi ei gwblhau yn Siambr Hywel Dda.

2.3.2 Mae'r gwaith fydd wedi ei gwblhau'n fuan yn y ddwy Siambr yn golygu y byddwn mewn sefyllfa lle rydym yn medru cynhyrchu'r deunydd i'w ddarlledu. Fodd bynnag, mae angen trefnu cefnogaeth ar gyfer darlledu'r deunydd ar y we.

2.3.3 Rydym nawr yn y broses o wahodd a chwrdd gyda chwmnïau sydd yn gallu 'hostio' (gosod) ein darllediadau'n fyw ar y we. Rydym hefyd yn ceisio casglu manylebau gan Awdurdodau sydd eisoes yn darparu gwe ddarlledu megis Cyngor Sir Gaerfyrddin ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

2.3.4 Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae oblygiadau referniw ynghlwm â hyn a chostau cynnal y gwasanaeth yn flynyddol yn dilyn y costau sefydlu cychwynol. Yn y trafodaethau gyda darparwyr, bydd angen ystyried yn ofalus y dull mwyaf effeithiol ac effeithlon o ddarparu gwe ddarlledu.

2.4 Datblygiad gwefannau i gynghorau tref a chymuned

2.4.1 Cist Gwynedd sydd yn gweinyddu'r broses grant ar gyfer datblygu safleoedd gwe cynghorau tref a chymuned yng Ngwynedd.

2.4.2 Ym mis Gorffennaf, rhoddwyd cynnig i'r cynghorau tref a chymuned i:

- a) ymgeisio am gyfran o grant i ddatblygu safle gwe eu hunain
- b) ddatblygu gwefannau ar y cyd am bris mwy rhesymol.

Gofynnwyd iddynt ddatgan diddordeb erbyn diwedd mis Hydref 2013.

2.4.3 Mae'r amserlen wedi llithro o gymharu â'r amserlen fras a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf. Digwydd hynny'n bennaf yn sgil y ffaith nad yw'r cynghorau tref a chymuned yn cwrdd yn ystod mis Awst, ac am mai'n fisol neu'n ddeufisol y mae nifer ohonynt yn cwrdd. O ganlyniad, roedd angen rhoi ffenestr amser digonol i'r holl gynghorau tref a chymuned i gwrdd cyn dyddiad cau'r datganiad o ddiddordeb.

3. **ARGYMHELLION**

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd yn:-

- a) Cymeradwyo symud ymlaen gyda darpariaeth ymuno â chyfarfodydd o bell yn amodol ar y cymalau 2.2.1a) a b) uchod.
- b) Cymeradwyo symud ymlaen gyda darpariaeth gwe-ddarlledu o Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda ac, yn amodol ar faint y costau, i wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw ofynion sefydlu a chynnal y tu hwnt i'r arian grant allan o'r gyllideb Costau Democratiaeth
- c) Parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygu gwefannau i Gynghorau Cymuned, gan dderbyn diweddariad ar y niferoedd sydd wedi datgan diddordeb i sefydlu gwefan yn y cyfarfod nesaf.

Rhif: WG18799



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Mynychu Cyfarfodydd Cyngor o Bell

Dyddiad cyhoeddi: **29 Mai 2013**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **21 Awst 2013**

Trosolwg

Canllawiau Statudol a wneir o dan Adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Sut i ymateb

Anfonwch eich sylwadau ynghylch unrhyw agwedd ar y Rheoliadau a'r Canllawiau erbyn **21 Awst 2013** drwy un o'r dulliau isod:

Gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar ein gwefan:

<http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/?lang=cy>

E-bost: LGDTMailbox@cymru.gsi.gov.uk

Neu postiwch hwy i'r cyfeiriad yn y manylion cysylltu isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Dogfennau defnyddiol:

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 - <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents/enacted/welsh>

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Tim Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: LGDTMailbox@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 029 2082 5194

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

MYNYCHU CYFARFODYDD CYNGOR O BELL

Canllawiau statudol drafft a wneir o dan Adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Bwriad Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (“y Mesur”) oedd cryfhau democratiaeth leol trwy gyflwyno, yn arbennig, ddiwygiadau sy’n cefnogi cynghorwyr y tu allan i’r weithrediaeth neu aelodau gweithredol pan fyddant yn gweithredu mewn swyddogaeth anweithredol. Un o’r diwygiadau hyn, yn adran 4 o’r Mesur, oedd cyflwyno’r posibilrwydd o fynychu cyfarfodydd cyngor o bell. Bwriad hyn oedd ei gwneud yn haws, er enghraifft, i’r rhai y gallai fod yn rhaid iddynt deithio pellter hir, y rhai sydd â chyfrifoldebau domestig a’r rhai sydd mewn cyflogaeth, i fynychu’r cyfarfod.

Canllawiau statudol o dan adran 4(6) o’r Mesur yw’r canllawiau hyn, ac mae rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddynt, mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdod a fynychir o bell yn unol ag adran 4.

Beth y mae adran 4 o’r Mesur yn ei ddweud

Mae Adran 4 yn darparu na chyfyngir presenoldeb mewn cyfarfod cyngor i gyfarfod o unigolion sydd i gyd yn bresennol yn yr un lle. Wrth “cyfarfod cyngor” rydym yn golygu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o’r cyngor yn ogystal â’r cyngor llawn ei hun. Er hynny, mae’r adran yn gosod rhai cyfyngiadau ar beth a olygir wrth fynychu o bell.

Pan fydd unrhyw aelod sy’n mynychu cyfarfod o bell (“mynychwr o bell”), yn siarad, mae rhaid iddo allu cael ei weld a’i glywed gan yr aelodau sy’n mynychu’r cyfarfod yn y man lle mae’r cyfarfod yn cael ei gynnal (“aelodau sy’n mynychu’r fangre”) ac mae rhaid i’r mynychwr o bell, yn ei dro, allu gweld a chlywed y rhai sy’n mynychu’r fangre. Os oes gan unrhyw aelodau o’r cyhoedd hawl i fynychu’r cyfarfod, mae rhaid iddynt hwythau hefyd allu gweld a chlywed y mynychwr o bell ac mae rhaid iddo yntau, yn ei dro, allu eu gweld a’u clywed hwythau (os bydd ganddynt hawl i annerch y cyfarfod). Os oes mwy nag un lleoliad pell, mae rhaid i’r holl aelodau sy’n mynychu o bell allu clywed - ond ddim o reidrwydd gweld- y lleill sy’n mynychu o bell.

Ni ellir cynnal cyfarfodydd o bell ond os na waherddir hynny gan reolau sefydlog yr awdurdod lleol. Mae rhaid i’r rheolau sefydlog orchymyn hefyd na fydd cworwm yn achos unrhyw gyfarfod sydd â mynychwyr o bell os bydd mwy o fynychwyr o bell nag o aelodau sy’n mynychu’r fangre.

Caiff pob awdurdod lleol wneud rheolau sefydlog /rheolau eraill mewn perthynas â mynychu cyfarfodydd o bell ac mae rhaid iddynt roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru. Mae’n fwriad gennym gyhoeddi’r canllawiau'r un pryd ag y daw’r adran o’r Mesur i rym.

Dylid nodi mai dim ond aelodau etholedig ac nid aelodau cyfetholedig sy'n cael mynychu cyfarfodydd o bell. Y rheswm dros hyn yw bod o nod o'i gwneud yn haws mynychu cyfarfodydd yn gysylltiedig â'r nod cyffredinol o annog mwy o bobl i ystyried dod yn gynghorwyr, ac nid yw'r nod hwnnw'n cael ei hybu trwy drefnu bod cyfleusterau ar gael i aelodau cyfetholedig.

Cefnogi mynychu o bell

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod goblygiadau technegol a staffio ynghlwm wrth gyflwyno mynychu o bell. Lle disgwylir i nifer o gynghorwyr fynychu o bell, a hynny yn ôl pob tebyg mewn swyddfa cyngor wahanol i'r man lle y cynhelir y cyfarfod, mae'n debygol y bydd angen i swyddog fod yn bresennol, er mwyn cefnogi'r aelodau sy'n mynychu o bell ond hefyd i sicrhau bod yr offer y mae ei angen er mwyn galluogi pobl i fynychu o bell yn gweithio'n iawn.

Bydd angen i'r awdurdodau lleol benderfynu a ydynt am ganiatáu i aelodau o'r cyhoedd allu bod yn bresennol mewn lleoliad pell. Os ydynt, byddai angen i swyddog fod yn bresennol i wneud trefniadau iddynt.

Mae'n glir y bydd angen darparu hyfforddiant priodol ar gyfer swyddogion a allai orfod mynychu cyfarfod o bell, er mwyn eu helpu i ymgynefino â gofynion y ddeddfwriaeth ac i ymdrin ag unrhyw faterion ymarferol. Dylai CLILC allu cynorthwyo yn hyn o beth.

Mae'r angen i gydnabod cydraddoldeb rhwng Cymraeg a Saesneg yn arwyddocaol iawn wrth ystyried mynychu cyfarfodydd o bell. Bydd gan yr awdurdodau lleol eu cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain ond mae'n debygol y bydd cyfleusterau'n bodoli - neu y gellid trefnu iddynt fod ar gael - i ddarparu ar gyfer aelodau nad ydynt yn deall Cymraeg.

Gallai hyn beri problem pan fydd cyfarfodydd yn cael eu mynychu o bell. Gallai cyfleusterau cyfathrebu modern, megis y rhai a ddefnyddir i ddarlledu trafodion cyngor dros y we, gynnwys cyfleuster cysylltiedig. Felly pan fydd aelod yn penderfynu siarad Cymraeg, mae'r rhai sy'n gwyllo'r darllediad mewn lleoliad arall yn clywed y cyfieithiad Saesneg yn cael ei droslaisio dros hyn yn hytrach na geiriau'r siaradwr.

Efallai na fydd aelod sy'n siarad Cymraeg ac sy'n mynychu cyfarfod o bell heb gyfleuster cyfieithu yn fodlon ar hyn gan y byddai rhaid i'r mynychwr o bell wrando ar y cyfieithiad Saesneg wedi'i droslaisio dros unrhyw Gymraeg sy'n cael ei siarad.

Pe bai mynychwr o bell yn dymuno siarad Cymraeg, ni fyddai'n peri problem o ran y cyfleusterau cyfieithu i'r rhai sy'n mynychu prif ganolfan y cyfarfod oherwydd y byddent yn gallu dewis gwrando naill ai ar y siaradwr Cymraeg neu ar y cyfieithiad i'r Saesneg. Ond yn achos pobl ddi-Gymraeg yn y lleoliad pell, byddai angen i gyfleuster cyfieithu fod ar gael ar gyfer Cymraeg sy'n cael ei siarad yn y man cyfarfod.

Yn achos unig berson sy'n mynychu o bell, a hynny gartref neu yn y gwaith, er enghraifft, mae'r sefyllfa yn haws oherwydd y bydd modd i'r unigolyn hwnnw siarad Cymraeg, a bydd ei eiriau'n cael eu cyfieithu yn y prif leoliad. Ond mae problem yn parhau o hyd sef y byddai rhaid i unig siaradwr Cymraeg sy'n mynychu o bell glywed aelod sy'n siarad Cymraeg yn y prif leoliad yn cael ei drosleisio yn Saesneg.

Cynigir y dylai rheolau sefydlog gynnwys darpariaeth y dylai aelodau, lle bynnag y bo modd, allu cymryd rhan mewn cyfarfod a fynychir o bell naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Er hynny, mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru na ddylid caniatáu mynychu cyfarfodydd o bell, os na fyddai modd, am resymau technegol neu resymau eraill, *ddarparu cyfieithu ar y pryd i siaradwyr di-Gymraeg sy'n mynychu cyfarfod lle y defnyddir Cymraeg a Saesneg*. Fel y cyfryw, efallai y bydd yr awdurdodau lleol am ofyn i'r aelodau *nodi eu hiaith ddewisol (o safbwynt siarad mewn cyfarfodydd) ac a fyddai arnynt angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd pe bai unrhyw gyfranogwr arall yn siarad Cymraeg*.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cymryd yn ganiataol y bydd yr awdurdodau lleol yn meddu ar yr offer neu'r wybodaeth dechnolegol i sicrhau bod mynychu o bell yn gweddu i bawb. Efallai y bydd gan rywun sy'n mynychu o bell gartref neu yn y gwaith gyfyngiadau lled band sy'n effeithio ar ei allu i gymryd rhan yn llawn. Bydd angen i'r awdurdodau lleol benderfynu drostynt eu hunain i ba raddau y byddant yn buddsoddi neu'n cynorthwyo aelodau i feddu ar y cyfleusterau angenrheidiol i fynychu o bell.

Ceir adegau pan na fydd cyfarfodydd cyngor yn agored i'r cyhoedd, sef pan fydd materion cyfrinachol, neu "wedi'u heithrio" – fel y'u diffinnir yn Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – o dan ystyriaeth. Byddai'n bwysig sicrhau na fydd modd i unrhyw aelodau o'r cyhoedd mewn lleoliadau pell glywed neu weld y trafodion yn ystod cyfarfodydd o'r fath. Byddai unrhyw aelod a fyddai'n mynychu cyfarfod ac yn methu â datgelu bod unigolion yn bresennol mewn gwirionedd nad oedd ganddynt hawl i fod yn bresennol yn torri'r rheolau o ran eu cyfrifoldebau o dan y Cod Ymarfer .

Gall rheolau sefydlog awdurdodau lleol bennu pa fathau o gyfarfodydd y gellir eu mynychu o bell. Yn y lle cyntaf, gallai materion ymarferol fynnu y byddai nifer y cyfarfodydd lle y gellid defnyddio'r cyfleuster hwn yn eithaf cyfyngedig, er y byddid yn gobeithio dros amser y byddai nifer y cyfarfodydd y byddai modd eu mynychu o bell yn cynyddu.

Ym marn Llywodraeth Cymru ni fydda'n briodol, er hynny, i reolau sefydlog awdurdod lleol roi gwaharddiad llwyr ar fynychu o bell. Bwriad y Mesur oedd cyflwyno hyblygrwydd a gallai rhai cynghorwyr, oherwydd pellter oddi wrth y ganolfan, iechyd, cyfrifoldebau gofal neu gyflogaeth, elwa ar y gallu i fynychu cyfarfodydd o bell.

Yn ôl y Mesur, er mwyn sicrhau cworwm yn achos cyfarfod a fynychir o bell, mae rhaid i gyfran benodol o gynghorwyr fynychu mangre'r cyfarfod. Pe bai aelodau sy'n mynychu mangre'r prif fan cyfarfod yn ymadael â'r cyfarfod cyn

iddo ddod i ben, byddai hyn yn tarfu ar y cworwm. O ganlyniad byddai cyfran y cynghorwyr sy'n mynychu o bell yn uwch na'r nifer a ganiateir, ac ni fyddai gan y cadeirydd ddim dewis ond dod â'r cyfarfod i ben.

Dylai rheolau sefydlog wneud darpariaeth hefyd ar gyfer beth ddylai ddigwydd os bydd anhawster technegol yn golygu bod y cyfleuster cyfathrebu'n torri i lawr. Nid peth anghyffredin yw hyn mewn cyfarfodydd a gynhelir trwy gyfrwng fideo-gynadledda. Pe bai hyn yn digwydd, ym marn Llywodraeth Cymru dylai'r cadeirydd ddatgan toriad tra bo ymdrechion yn cael eu gwneud i gywiro'r nam. Os byddai angen, byddai rhaid rhoi'r gorau i'r cyfarfod ac ni ddylai'r cyfarfod barhau heb gyfraniad yr aelodau pell. Gallai rheolau sefydlog, er hynny, wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol fathau o gyfarfodydd etc. Efallai na chaniateir cynnal cyfarfod, er enghraifft, sy'n gwneud penderfyniad brys neu gyfarfod sydd o dan gyfyngiad amser, gyda mynychwyr o bell neu byddai'r cyfarfod yn mynd rhagddo yn achos methiant cyfathrebu. Wedyn byddai'r rhai sy'n mynychu o bell yn ymwybodol o hyn ac yn derbyn y byddai'r cyfarfod yn parhau a byddai pleidlais yn cael ei chynnal heb iddynt fod yn bresennol yn achos methiant cyfathrebu.

Yn olaf, rhaid ystyried mater pleidleisio. Bydd rhaid i awdurdodau lleol ymgorffori trefniadau yn eu rheolau sefydlog er mwyn darparu i bleidleisio ddigwydd yr un pryd yn y prif leoliad(au) a'r lleoliada(au) pell. Caiff cadeirydd y cyfarfod gyfrif y pleidleisiau gan y bydd yn gorfod gallu gweld pob aelod yn pleidleisio. Gallai fod anawsterau i unrhyw gyngor sydd wedi cyflwyno systemau pleidleisio electronig. Oni ellir cyflwyno technoleg i ganiatáu ar gyfer pleidleisio yn electronig mewn lleoliadau pell, rhagwelir y byddai angen cynnal pleidlais trwy godi llaw ym mhob lleoliad er mwyn osgoi triniaeth annheg yn achos y rhai mewn lleoliadau pell, h.y. byddai modd gweld sut y byddent yn pleidleisio, ac ni fyddai hyn yn wir yn achos y rhai sy'n pleidleisio yn electronig.

Canllawiau drafft at ddibenion ymgynghori yw'r canllawiau hyn. Gwahoddir eich sylwadau ar y materion a drafodir uchod ac ar unrhyw fater arall y mae angen mynd i'r afael ag ef yn eich barn chi yn y canllawiau hyn.

**Aelod Cabinet dros Gofal Cwsmer;
Democratiaeth a Chyfreithiol; Y Gymraeg •
Cabinet Member for Customer Care;
Democracy and Legal; Welsh
YCyngorydd / Councillor
Ioan Thomas**

Y Tim Craffu, Democratiaeth a Chyfranogi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

20 Awst 2013

Annwyl Syr / Madam,

PARTHED:

YMGYNGHORIAD: MYNYCHU CYFARFODYDD O BELL

Canllawiau Statudol a wneir o dan Adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Ymateb Cyngor Gwynedd

Cynhaliwyd trafodaeth ar y ddogfen ymgynghori *Mynychu cyfarfodydd o bell* yng nghyfarfod Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd, Cyngor Gwynedd ar 4 Mehefin 2013. Yn dilyn hynny, estynnwyd gwahoddiad i holl aelodau etholedig y Cyngor i gyflwyno eu sylwadau ar y ddogfen ymgynghori. Crynodeb o'r holl sylwadau a dderbyniwyd yw'r sylwadau a gyflwynir drwy gyfrwng yr ymateb hwn.

Yn gyffredinol, o ganlyniad i faint sylweddol sir Gwynedd, a'r amser a gymer i deithio o un pen i'r sir i'r llall, cytunir gyda bwriad y diwygiadau yn adran 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i gyflwyno'r posibilrwydd o fynychu cyfarfodydd o bell. Er hyn, mae peth pryder ynglŷn â'r risg o golli ymdeimlad o naws cyfarfodydd ac angerdd trafodion wrth beidio a bod yn bresennol ym mhrif leoliad unrhyw gyfarfod.


Er gwaethaf y gefnogaeth gyffredinol i'r bwriad hwn, mae rhai pryderon ynglŷn ag ymarferoldeb gweithredu'r gofynion, yn benodol:


Yr hawl i weld a chlywed

Er mwyn sicrhau cydraddoldeb i aelodau etholedig sydd yn rhan o gyfarfod, ynghyd ag aelodau o'r cyhoedd sydd yn mynychu cyfarfodydd, dylai unrhyw aelod sydd yn mynychu cyfarfod o bell allu:

- cael eu gweld a'u clywed gan yr aelodau sydd yn mynychu'r cyfarfod ym mhrif leoliad y cyfarfod
- gweld a chlywed yr aelodau hynny sydd ym mhrif leoliad y cyfarfod
- clywed a chael eu clywed gan aelodau eraill sydd yn mynychu o bell

Strade
65 Cae Gwyn
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1LL

 01286 673828

 07810 648647

**Aelod Cabinet dros Gofal Cwsmer;
Democratiaeth a Chyfreithiol; Y Gymraeg •
Cabinet Member for Customer Care;
Democracy and Legal; Welsh
YCynghorydd / Councillor**

Ioan Thomas

- cael eu gweld a'u clywed gan unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â'r hawl i fynychu'r cyfarfod

Cydnabyddir fod gwireddu hyn yn cyflwyno her technegol, a'i bod yn ofynnol cael sistem dechnolegol o ansawdd da, ond mae goblygiadau ariannol i hyn wrth gwrs. Ar sail yr uchod, o ddefnyddio offer fideo gynadleddau ar gyfer galluogi aelodau i fynychu cyfarfodydd o bell, credir nad yw'r amgylchiadau canlynol yn addas:

- pan fo nifer sylweddol o aelodau a swyddogion yn bresennol gan nad yw'r offer yn galluogi gweld pawb megis cyfarfodydd Cyngor llawn, pwyllgor cynllunio, pwyllgorau craffu
- pan fo'r cyhoedd yn bresennol

Hyfforddiant a chefnogaeth i fynychu cyfarfodydd o bell

Yn y ddogfen ymgynghori, cydnabyddir yr angen am hyfforddiant ar gyfer y swyddogion rheiny a allai orfod mynychu cyfarfod o bell er mwyn eu cynorthwyo gyda gofynion y ddeddfwriaeth yn ogystal ag ymdrin ag unrhyw faterion ymarferol. Fodd bynnag, credir ei bod yn allweddol bwysig sicrhau hyfforddiant priodol ar gyfer Cadeiryddion unrhyw gyfarfodydd neu bwyllgorau fydd yn caniatáu mynychu o bell hefyd, er mwyn sicrhau fod y cyfarfodydd rheiny yn cael eu cynnal yn effeithiol, a bod yr aelodau hynny sydd yn mynychu o bell yn cael gwrandawriad teg ac yn gallu cyfranogi'n llawn. Yn ogystal â hyfforddiant, credir bod angen newid diwylliant a meddylfryd swyddogion ac aelodau etholedig er mwyn gweithredu'r gofyn i fynychu cyfarfodydd o bell.

Dylid nodi mai dim ond yn lleoliadau'r Awdurdod Lleol y byddai cefnogaeth swyddogion ar gael i aelodau etholedig sydd yn mynychu cyfarfodydd o bell, ac nid ymhob lleoliad y mae'r aelodau etholedig yn dewis gweithredu eu hawl i fynychu o bell h.y. nid mewn eiddo personol unrhyw aelod.


Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu


Cydnabyddir y cyfyd rhai amgylchiadau lle bo'r dechnoleg yn annibynadwy all arwain at dorri cysylltiad gyda'r cyfarfod yn y prif leoliad. O dan amgylchiadau o'r fath bydd angen protocol clir i'w ddilyn, fydd yn caniatáu i gyfarfod barhau yn sgil absenoldeb unrhyw aelod sydd yn mynychu o bell. Bydd angen rheolau gweithdrefn clir a phendant a dealltwriaeth cadeiryddion a phob aelod (pell ac agos) o oblygiadau gweithredu hyn.

Cyfieithu

Yn y ddogfen ymgynghorol, cydnabyddir yr angen i gydnabod cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg wrth ystyried mynychu cyfarfodydd o bell ar y naill law, ac ar y llaw arall nodir bod disgwyliad i siaradwyr Cymraeg sy'n gwyllo'r darllediad mewn lleoliad arall i wrando ar gyfieithiad Saesneg o drafodion sydd yn cael eu cynnal yn Gymraeg. Nid yw hyn yn arddangos cydraddoldeb ieithyddol nac yn cydfynd gydag ymrwymïadau Cynlluniau Iaith Awdurdodau Lleol.

Strade
65 Cae Gwyn
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1LL

 01286 673828

 07810 648647

**Aelod Cabinet dros Gofal Cwsmer;
Democratiaeth a Chyfreithiol; Y Gymraeg •
Cabinet Member for Customer Care;
Democracy and Legal; Welsh
YCynghorydd / Councillor
Ioan Thomas**

Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried a chydabod cymhlethdod darparu gwasanaeth cyfieithu pan y gweithredir cyfarfodydd o bell. Pan fo cyfarfodydd o bell yn cael eu cynnal o fewn swyddfeydd y Cyngor, yna fe fydd posib darparu cyfieithu ymhob lleoliad, gan sicrhau cydraddoldeb ieithyddol. Serch hynny, rhaid ystyried y buddsoddiad adnoddau (cyfarpar a staff) fydd ei angen i ddarparu cyfieithu ar gyfer un cyfarfod a gynhelir mewn nifer o leoliadau ar yr un pryd, yn enwedig pan fo adnoddau yn prinhaus.

Awgrymir y dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu'r angen i Awdurdodau Lleol gwrdd ac ymrwymadau eu Cynlluniau Iaith yn y dull mwyaf priodol wrth ganiatau mynychu cyfarfodydd o bell, ac na ddylid gweithredu cyfarfodydd o bell o dan amgylchiadau ble na fyddai'r Awdurdod yn cyd-fynd ag ymrwymadau ei Gynllun Iaith. Cydnabyddir yn hyn o beth efallai y bydd sefyllfa Cyngor Gwynedd yn unigryw gan mai iaith swyddogol cyfathrebu mewnol y Cyngor yw'r Gymraeg.

Cyflwynir y sylwadau hyn mewn modd adeiladol gan gefnogi'r egwyddor sylfaenol a'r bwriad o geisio galluogi aelodau i fynychu cyfarfodydd o bell. Rhwystrau i'w goresgyn yw:


- Yr hawl i weld a chlywed
- Hyfforddiant
- TGCh
- Cyfieithu


Ond cydnabyddir hefyd fod gan Awdurdodau Lleol ffordd bell i fynd i gyflawni'r nod o safbwynt yr adnoddau sydd ar gael, y dechnoleg, a'r newid diwylliant a meddylfryd sydd ei angen er mwyn galluogi mynychu cyfarfodydd o bell effeithiol, sydd yn hyrwyddo democratiaeth, cyfranogiad a chydaddoldeb i bawb.

Yn gywir,

Cynghorydd Ioan Thomas
Aelod Cabinet Gofal Cwsmer
Cyngor Gwynedd

Strade
65 Cae Gwyn
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1LL

 01286 673828

 07810 648647

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	10 Medi 2013
PWNC	Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig
PWRPAS	Dysgu gwersi o brofiad yr aelodau o lunio Adroddiadau Blynyddol eleni
AWDUR	Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. CEFNDIR

1.1 Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd eisoes yn ymwybodol fod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi:

Rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau:

- I bob person sy'n aelod o'r awdurdod i lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,
- i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi; ac
- i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

1.2 Bwriad yr Adroddiadau Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhyngddynt â'r cyhoedd. Dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol y byddai'r adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu haelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt, gan alluogi'r cyhoedd i ddod o hyd i wybodaeth am weithgarwch eu cynghorydd lleol.

2. CAMAU A DDILYNWYD

2.1 Yn dilyn trafodaeth ar y mater yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 19 Mawrth 2013, anfonwyd gohebiaeth at yr holl aelodau ar 8 Ebrill 2013 yn:

- adrodd ar benderfyniad y pwyllgor i ymgymryd â pheilot o'r drefn ar gyfer 2012/13
- nodi fod rhyddid i unrhyw aelod gynhyrchu adroddiad blynyddol
- gofyn i aelodau ddatgan eu bwriad i lunio adroddiad; ac
- hysbysu aelodau y byddai canllawiau manylach i ddilyn.

2.2 Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor hwn cytunwyd y byddai cyfle i unrhyw aelod lunio adroddiad, ond ar gyfer 2012/13 y byddai Aelod Cabinet Gofal Cwsmer a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn llunio adroddiad blynyddol, er mwyn rhoi arweiniad i weddill aelodau'r Cyngor i lunio eu hadroddiadau ar gyfer 2013/14 ymlaen.

3. ADRODDIADAU BLYNYDDOL GWYNEDD 2012/13

3.1 Yn unol â'r drefn a nodir uchod, derbyniwyd adroddiadau blynyddol gan 8 aelod etholedig yng Ngwynedd ar gyfer 2012/13; 1 aelod o'r weithrediaeth, a 7 aelod rheng-flaen, sef:

- Ioan Thomas
- Lesley Day
- Elwyn Edwards
- Selwyn Griffiths
- June Marshall
- Mair Rowlands
- Angella Russell
- Eirwyn Thomas

3.2 Mae adroddiadau blynyddol yr aelodau hyn wedi eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, ac hyd yma mae tudalen we yr adroddiadau blynyddol wedi derbyn cyfanswm o 119 o 'hits'.

Hefyd, mae data ar gael o'r niferoedd sydd wedi agor y dogfennau (pdf) ar y dudalen adroddiadau blynyddol, ac ar dudalen unigol pob cynghorydd. Mae'r data yn dangos bod y nifer sydd wedi eu hagor yn amrywio o 9 ar gyfer un aelod i 50 o weithiau ar gyfer yr aelod sydd wedi cael y nifer mwyaf o 'hits'.

3.3 Hoffai'r Uned Gyfathrebu dynnu ein sylw at y ffaith fod newidiadau i'r system cookies yn arwain i'r ffigyrau ymddangos ychydig yn is nag ydynt mewn gwirionedd. h.y. os nad yw'r unigolyn sy'n ymweld â'r wefan yn derbyn cookies, nid yw'r ymweliad yn cael ei gofnodi ar systemau'r Cyngor.

3.4 At hyn, nid oes dadansoddiad manwl o'r ffigyrau uchod ar gael, ac felly mae'n anodd dehongli eu gwerth, yn arbennig o safbwynt cyfiawnhau bwriad gwreiddiol yr adroddiadau blynyddol, sef gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu haelod lleol yn ei wneud.

4. Y SEFYLLFA AR DRAWS CYMRU

4.1 Ychydig o wybodaeth cymharol sydd ar gael ond isod cyflwynir y data sydd ar gael am niferoedd yr adroddiadau blynyddol sydd eisoes wedi eu cyhoeddi gan rai awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru:

AWDURDOD LLEOL	NIFER ADRODDIADAU BLYNYDDOL	% O'R HOLL GYNGHORWYR
Caerffili	73	100%
Conwy	15	25%
Gwynedd	8	11%
Penybont ar Ogwr	27	50%

4.2 Mae nifer o Awdurdodau Lleol eto i gyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol, ac felly sampl bychan yw'r data a gyflwynir uchod.

- 4.3 O ganlyniad i faint y sampl uchod, ynghyd â diffyg gwybodaeth am gyd-destun y data h.y. pa fath o ddisgwyliadau a osodwyd, ynghyd â pa fath o arweiniad, a pha lefel o gefnogaeth a roddwyd i aelodau etholedig i gyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol; ni ellir gwneud mwy na chyflwyno'r data yma, gan nad oes modd rhoddi ystyriaeth bellach iddo er dwyn cymhariaethau ystyrlon rhyngddo â Gwynedd.

5. GWERSI I'W DYSGU

- 5.1 O ystyried mai dyma'r tro cyntaf i weithredu'r gofyn i aelodau etholedig lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol, mae angen dysgu gwersi o'r profiad cychwynnol hwn.
- 5.2 Eisoes dosbarthwyd holiadur byr i'r 8 aelod etholedig yn holi:
1. Pa mor hwylus oedd y broses o lunio'r adroddiad?
 2. A oeddech yn teimlo eich bod wedi derbyn digon o arweiniad a chymorth?
 3. A ydych wedi gweld gwerth mewn cynhyrchu adroddiad o'r fath?
 4. A ydych wedi gwneud defnydd o'r adroddiad neu ei gynnwys yn eich gwaith ward mewn unrhyw ffordd?
 5. I'r dyfodol a ydych yn meddwl y byddai paratoi templed safonol i bob cynghorydd ei ddilyn yn ddefnyddiol?
- 5.3 Mae negeseuon cychwynnol yr holiaduron hyn yn gyffredinol yn awgrymu:
1. fod y broses o lunio'r holiaduron ar y cyfan wedi bod yn eithaf hwylus o dderbyn arweiniad ymlaen llaw.
 2. fod yr arweiniad a'r gefnogaeth a roddwyd ar y cyfan wedi bod yn ddigonol
 3. fod y broses o lunio'r adroddiadau blynyddol wedi amlygu'r gwerth o gadw cofnod o ddigwyddiadau
 4. nad oes defnydd helaeth wedi eu gwneud o'r adroddiadau blynyddol hyd yma
 5. y byddai templed yn werthfawr ond nid yn angenrheidiol.
- 5.4 Awgrymir hefyd fod angen deall meddylfryd yr aelodau etholedig benderfynodd beidio llunio adroddiadau blynyddol eleni, a phe baent yn llunio adroddiadau blynyddol yn y dyfodol, pa fath o gymorth y byddent ei angen i gyflawni'r nod.
- 5.5 Mae data cychwynnol Awdurdodau Lleol eraill ar draws Cymru o safbwynt nifer yr adroddiadau blynyddol a gyhoeddwyd, o bosib yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn y disgwyliad a osodwyd ar yr aelodau etholedig gan y siroedd gwahanol. Yn ogystal, mae'n dangos yr amrywiaeth yn y lefel o gefnogaeth a'r arweiniad a oedd ar gael i'r aelodau etholedig i lunio a chyhoeddi eu adroddiadau blynyddol mewn siroedd gwahanol ar draws Cymru.

6. ARGYMHELLION

6.1 Argymhellir y dylid:

- cynnal trafodaethau gyda'r aelodau etholedig na luniodd adroddiadau blynyddol eleni, er mwyn canfod pa gefnogaeth ac arweiniad fyddai ei angen arnynt hwy i'w galluogi i lunio adroddiadau blynyddol yn 2013/14
- cyflwyno adroddiad gerbron y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd nesaf yn sgil y trafodaethau hyn, i gynnwys argymhellion clir a phendant fyddai'n ein galluogi i hwyluso'r broses o alluogi aelodau etholedig i lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol yn 2013/14.

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	10 Medi 2013
PWNC	Gwybodaeth i Aelodau
PWRPAS	Cyflwyno adborth yr aelodau am Rhaeadr a thrafod dulliau o gyfathrebu gydag aelodau etholedig
AWDUR	Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae angen ystyried y modd y mae aelodau etholedig yn cyrchu gwybodaeth er mwyn cyflawni eu rôl yn llwyddiannus. I gwrdd â'r angen yma, sefydlwyd *Rhaeadr* fel porth gwybodaeth hwylus i'r aelodau allu cyrchu ato yn rheolaidd.
- 1.2 Mae'n amserol nawr i ystyried y defnydd a wneir o *Rhaeadr*, ynghyd â dulliau eraill o raeadru gwybodaeth i'r aelodau, gan hefyd roi ystyriaeth i gyfryngau eraill ar gyfer casglu sylwadau ac ymatebion gan yr aelodau ar bynciau amrywiol.

2. CYFLWYNO GWYBODAETH TRWY RHAEDR

- 2.1 Yn ystod mis Awst 2013, bu i Swyddog Cyfathrebu'r Cyngor gysylltu gydag aelodau etholedig yn uniongyrchol dros y ffôn er mwyn derbyn adborth ganddynt am *Rhaeadr*.
- 2.2 Mae'r sylwadau a dderbyniwyd am *Rhaeadr* yn cynrychioli sampl o 28% o holl aelodau etholedig y Cyngor.
- 2.3 O'r holl sampl, isod cyflwynir y prif negeseuon a dderbyniwyd am *Rhaeadr*:
 - 29% o'r aelodau a holwyd yn teimlo fod Rhaeadr yn hawdd i'w ddefnyddio
 - 29% o'r aelodau a holwyd yn defnyddio Rhaeadr yn rheolaidd
 - 29% o'r aelodau a holwyd yn teimlo fod y wybodaeth ar Rhaeadr yn gryno ac yn ddefnyddiol ac yn fodlon gyda'r cynnwys.
 - 14% o'r aelodau a holwyd eisiau mwy o wybodaeth amserol am bethau a oedd yn digwydd yn lleol yn eu wardiau
 - 10% o'r aelodau a holwyd yn awyddus i dderbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio Rhaeadr ar yr i-pad
 - 19% o'r aelodau a holwyd yn datgan nad ydynt yn defnyddio Rhaeadr
- 2.4 Cesglir o'r adborth uchod, fod yr aelodau etholedig ar y cyfan yn teimlo fod Rhaeadr yn ddefnyddiol o safbwynt cyflwyno gwybodaeth iddynt.

3. DERBYN SYLWADAU A / NEU YMATEBION TRWY RHAEDR

- 3.1 Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos nad yw *Rhaeadr* yn gyfrwng mor llwyddiannus i ennyn sylwadau a/neu ymatebion gan yr aelodau

etholedig ar ryw bwnc arbennig. Mae profiad diweddar wedi dangos mai pur anaml y derbynnir unrhyw ymatebion i geisiadau o'r fath.

- 3.2 Cyfyd hyn amheuaeth ynglŷn ag addasrwydd *Rhaeadr* fel cyfrwng i ennyn sylwadau ac ymatebion, er ei fod yn gyfrwng derbyniol i gyflwyno gwybodaeth.
- 3.3 Mae angen ystyried, felly, beth yw'r ffordd orau o ennyn sylwadau ac ymatebion gan aelodau etholedig i'r dyfodol.

4. HOLIADUR I AELODAU ETHOLEDIG

- 4.1 Mae holiadur wedi ei lunio i aelodau etholedig yn ymwneud â nifer o faterion gwahanol gan gynnwys cyfathrebu.
- 4.2 Bwriedir defnyddio'r holiadur hwn i dderbyn gwybodaeth gan aelodau ynglŷn ag unrhyw broblemau neu anawsterau sydd ganddynt o safbwynt cyfathrebu.
- 4.3 Mae angen ystyried y ffordd orau o sicrhau ymatebion gan yr aelodau i'r holiadur hwn, er mwyn sicrhau adborth cynhwysfawr fydd yn cyfleu negeseuon clir ynglŷn ag anghenion cyfathrebu yr aelodau i'r dyfodol.

5. ARGYMHELLION

- 5.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:-
 - a) rhoi arweiniad ar unrhyw ddatblygiadau pellach i *Rhaeadr*
 - b) rhoi arweiniad ynglŷn â'r camau nesaf y dylid eu cymryd o safbwynt edrych ar ddulliau o dderbyn sylwadau a/neu ymatebion gan aelodau etholedig
 - c) rhoi arweiniad ynglŷn â'r dulliau gorau o dderbyn ymatebion gan yr aelodau i holiadur sydd wedi ei lunio ar eu cyfer.